YR YMOFYNYDD.

RHIF. 53.] MAI, 1863. [AIL GYFRES.

HANNER AWR GYDA'R BARDD O BANTYCELYN.

LLYTHYR III.

YR ydys wedi nodi fel un rheswm pellach dros boblogrwydd yr hymnau dan sylw fod cymmaint o'r anianol *(sensuous)* ynddynt, neu y cynwysant y fath bictwrau cyffrous,—pell o fod yn gynyrch gwir gelfyddyd na dychymyg coeth, ond eto cynhyrfus i'r pen—yn apelio at deimladau a ffansi grefyddol y werin bobl, yn enwedig y dosparth anllythyrenog o honynt. Dodwyd gerbron fagad o engreifftiau o'r desgrifiadau a roddir o'r pechadur a'r ddaear hon, o uffern ac o'r nefoedd. Byddai yn hawdd ychwanegu ar bob un o'r penau hyn, ond rhaid ymattal gyda'r penill bychan hwn am y nefoedd :—

Babanod bychain yno sy, Fu feirw'n ddystaw yn y bru :
A rhai ddyfethodd cleddau glas, Yn newydd ddod o'r groth i ma's.

Ni a basiwn ym mlaen yn awr at destun mwyaf hoffus y bardd : angau'r groes. Nid oes dim y sonia yn amlach am dano na hyn, ymddyrch y groes i'w olwg ar bob cam, a dug pob awel y geiriau melus Calfaria a Golgotha i'w glustiau. Ymorfoledda yng nghyflafan y groes, a manyla gyda hoffder annesgrifiadwy ar bob dim cysylltiedig â hi. Mae llawer o'i gyfansoddiadau ar y pen hwn yn un mewn iaith a thôn ac yspryd ag eiddo Eglwys Gatholig Rhufain ; yn unig dylid dweyd, dichon yr hynodir yr olaf yn y cyffredin gan chwaeth llawer uwch. Mae digon o fath y llinellau canlynol, y rhai sy wedi eu cymeryd o lyfr yr Offeren Babaidd, i'w cael ar wasgar ym mhlith hymnau ein bardd :—

O Faithful cross ! O noblest tree, In all our woods there's none like thee :
No earthly groves, no shady bowers, Produce such leaves, such fruits, such flowers.
Sweet are the nails, and sweet the wood, That bears a weight so sweet, so good.

Ymeifl yn y testun hwn gyda'r un llaw drwsgl ag y gwna â rhai eraill. A barnu wrth y iaith a ddefnyddia, nid ymddengys fel yn teimlo dim yn anghyffredinol o gyssegredig yn yr amgylchiad. Nid yw, fel y gellid dysgwyl iddo, yn codi'n uwch nag arferol gyda'r fath destun. Os dim, defnyddio iaith arwach ac erchyllach a wna. Mae darllen chwaithach canu rhai o'r hymnau hyn yn ddigon i yru echryd ar ddyn, a chodi y gwrthneu llwyraf ynddo, yn wyneb yr arddangosiad diseremoni a wneir yma o waed, ïe, o waed y gwylaidd, y tawel a'r addfwyn Iesu. Oni bai y dodem ein hunain yn agored i'r cyhuddiad o wneyd cam â'r bardd, ac o'i yspeilio o'r hyn a ystyrir gan y cyffredin ei ogoniant penaf, llawer mwy dewisol fuasai genym droi ymaith oddiwrth yr hymnau gwaedlyd hyn a gadael i fantell anghofrwydd

ddisgyn arnynt o'n rhan ein hunain. Ond nid Williams fyddai heb linell o waed yn ffurfio ymylwaith pob hymn. Fel ag yr oedd y gwaed ar gapan y drws yn dynodi aneddau y teuluoedd Israelaidd yn yr Aifft, felly arwydd y gwaed yw yr un sicraf i adnabod Williams wrtho. Mae yn addysgiadol iawn i edrych pa ryw olwg a gymer ar "angau pen y bryn." Nid oes air o dosturi at y Cyfiawn hwnw yn cael ei hyrddio i farwolaeth anamserol a gwaradwyddus gan falais ei elynion. Nid yw ei galon ei hun yn gwaedu dim o gydymdeimlad ag arteithiau anhaeddiannol Mab y dyn. Cymer y cwbl le o ordeiniad y Tad, er dyhuddo llid y Tad, er mwyn i bechadur gael byw, er enill nefoedd—telyn a phalmwydd a gwisgoedd gwynion—i bechadur. Ei *hunan* sydd o hyd yn llygad y bardd :—

Os hoeliwyd ef unwaith ar bren ; Os gorfu arno grymmu 'i ben,
Tros f' enaid I bu hyn i gyd, Mi gofia 'i boenau tr'w'n y byd.

Er mai'r dyn ei hun sydd yn y camwedd, er nad yw ond crug o lygredd a thomen pechod, heb haeddu dim ond damnedigaeth drag'wyddol, tra y mae'r Iesu yn bur a dihalog, llawenhâ y blaenaf gyda llawenydd mawr ac annhraethadwy fod y dieuog yn dyoddef yn lle'r euog, y cyfiawn yn lle'r anghyfiawn. Mae synwyr cyffredin, mae teimladau goreu pob dyn diailanedig yn cael eu taro â syndod a braw yn wyneb y fath gamwri a'r fath farbareidd-dra â hyn. Y dyn wedi ei "gyfnewid trwy ras" yn unig sydd yn gallu llawenhau ; ac y mae ef yn llawenhau heb geisio celu'r peth. Yn ol ein bardd y *system* waethaf o greulonder ac o hunanoldeb y gellid byth ei dyfeisio yw Cristnogaeth. Mae yn dyfod i hyn :—ond i mi gael nefoedd ni waeth pwy a ddyoddefo na pha ffordd y daw imi. Bardd yr hunan-les a'r hunanoldeb yw ein bardd yma. Mae ei hunanoldeb haerllug yn codi ei ben yn ddi-wrid yng ngwydd yr esiampl odidocaf hon o hunan-anghofrwydd ac o hunan-offrymiad yn achos y gwirionedd. Ond darllener yr ychydig ddyfyniadau a ganlyn :—

Clywed dy ruddfanau chwerwon, *Wnaiff i'm henaid lawenhau.*
. . . . . .
'Does olwg harddach ddydd na nos, Na'm Iesu'n hongian ar y gro's.

Eto er hardded yr olwg addefa yr hen fardd na fu angau creulonach erioed :

Bydd canu am angau tr'a nefoedd yn bod,
Yr angau creulonaf ddyfeisiwyd erio'd.

Ac eto yr oedd gan Dduw ei hun law yn yr angau hwn neu yn "mwrddrad" yr Iesu :—

Fe rodd ffarwel pan ar y gro's, I'w fywyd tros ei elynion,
'Nawr gwelwn uffern dae'r a NE *Yn mwrddro Brenin Sion.*
Oedd dim a *wnaethai fodd fy Nhad* Ond gwisgo drain a cholli gwa'd.

Mae marwolaeth yr Iesu yn brawf o'i Dduwdod :—

Dirgelwch o anfeidrol ryw I'm Iesu farw ac yntau'n Dduw.
. . . . . .
Y dwr a'r gwaed yn ffrydiau mawr Yn rhedeg 'rhyd ei gorff i lawr ;
Ni all'sai byth fyn'd tan fath bla Oni buasai fod ei enw'n JAH.

Ond er ein syndod, yn y penill nesaf gweddia am fod yn Dduw ei hun :—

O dysc i'm ddilyn ol dy dro'd, Trwy bob rhyw groesau ag fo'n bod
Ac yfed hefyd yn ddi gryn Y cwpan yfaist Ti dy hun.
O dewch rhyfeddwch rin ei waed Roi torf o elynion tan ein traed,
Ei ddwyfol waed ddamsiengodd griw I angau, wnaeth myrddiynau'n fyw.

Fy enaid gwel dy Brynwr mawr A'i freichiau ar led rhwng nef a llawr,
Creawdwr nef yn prynu dyn Sef prynu gwaith ei ddwylo 'i hun.
Tanwyd ei freichiau santaidd pur, A rhoddwyd ynddynt hoelion dur;
Estynwyd, hoeliwyd nefol draed, *Heb orchudd drostynt ond ei waed.*
Gwelwch y goron bigog gref *Yn gorwedd ar ei arlais ef,*
A'r afon goch lifeiriol fawr Yn tarddu o dan ei fron i lawr.
Edrychwch arno, dyma'r Dyn, *A phwy oedd Ef ond Duw ei hun ?*
. . . . . .
O bob enw ym mhlith dynion Dyma'r enw goreu i gyd,
Duw tan hoelion ar y groes-pren, Yno'n marw tros y byd;
Gwaed yn llifo ar Galfaria, Môr o haeddiant, mor o hedd, &c.
Mi wela' fwy nag aur Peru Mewn defnyn bach o waed fy Nuw.

Mae pregethwr poblogaidd yn Llundain (Spurgeon) yn desgrifio trag'wyddoldeb y saint fel yn cael ei dreulio i lygadrythu yn nhyllau'r hoelion ac ol y waewffon. Treuliant ryw filoedd o flynyddoedd i edrych yn y twll hwn, miloedd wedy'n i edrych ar y clwyf acw, a miloedd drachefn i edrych ar ryw graith arall. Mae digon o hyn yn y bardd. Ond nid attebai un dyben i ddyfynu. Mae ef hefyd yn rhoi'r un gorchwyl hyfryd i'r angelion :

Angylion nef yn rhyfedd sŷn, Sy'n edrych yn ei glwyfau,
Yn sugno 'u dysc bob awr uwch nen Oddiwrth y pren dyodde.

Gydag edrych bydd canu hefyd :—

Fe genir coron ddrain Wrth ganu gwaed y groes,
Fe gofir picell fain Wrth gofio angeu loes;
Fe seinia'r holl dorfeydd yn un *Bob rhan o boenau Mab y dyn.*

Yr un peth yw testun gorfoledd y bardd ar y ddaear ag a fydd yn y nefoedd :

Mi ganaf tra fo anal O fewn i'r ffroenau byn
Am gariad yn dyodde' Ar ben Calfaria fryn,
Am *goron ddrain* blethedig, Am *hoelion* geirwa 'u rhyw
I *gannu'm* henaid euog Fel eira gwyn ei liw.
. . . . . .
Gruddfanau pen Calfaria, Lama Sabachthani
Yw'r perlau mwya' gwerthfawr A fedd ein daear ni.
. . . . . .
Yr hoelion geirwon caled, Gynt a'u trywanodd E,
Sy'n awr yn dal y nefoedd Gwmpasog yn ei lle.
. . . . . .
Mewn anial 'rwy'n trigo Dyeithr yw'r wlad
'Rwy'n mofyn ardaloedd *A brynwyd â gwa'd.*
Dyosgwyd ei wisgoedd E, Brenin y Ne,
O watwar rhow'd mantell o scarlet i'w lle;
Rho'wd iddo deyrnwialen Rhyw gorsen las fain,
Fe wisgodd ei goryn Ef goron o ddrain

Dyma ddarlleniad y bardd o weddi'r Iachawdwr ar y groes ;—

Maddeu'n rhad, *dyma wa'd,* Oedd ei weddi at y Tad.

Wele un o'i " Hymnau Sacramentaidd" :—

Bwyttewch yn helaeth yn ei dy, Mae Ef i ni yn perthyn;
Yfwch i dre, pa'm byddwch sych ! Cyfeillion y'ch i'r Brenin.

Digoned hynyna ar hyn o bryd. Nid oes, mi dybygwn, angen am air o esponiad o un math. Pe ceisid dwyn ymresymiad i mewn yma ni fyddid ond ei wastraffu. I'r ystyriol mae yr hymnau uchod a'u cyffelyb yn dwyn

gyda hwynt eu dedfryd eu hunain. Mae y groes yn destun o'r godidocaf i ganu arno. Ni chafodd awen ddynol erioed destun uwch. Dyrchafwyd yr Iesu ar y groes mewn ystyr annhraethol uwch na'r un lythyrenol. Mewn hollol gyd-darawiad ag addysgiadau a gweithredoedd ei fywyd blaenorol, ac yn goron a diweddglo ar y cwbl y saif ger ein bron yr hunan-offrymiad hwn. Pan yn ei ingoedd olaf y cawn ef yn ymbil a'i Dad ar ran ei elynion, gellid meddwl fod uchelfan eithaf duwioldeb wedi ei gyrhaedd, a bod y weddi ryfedd hon y prawf sicraf ei fod ar esgyn at ei Dad ef a'n Tad ninau, ei Dduw ef a'n Duw ninau. Mae yn ofidus gan hyny orfod dweyd nad anhawdd fyddai i ni rifo ar ein bysedd yr holl hymnau ar y testun dyrchafedig hwn, y rhai ydynt ar gael yn ein iaith y dydd heddyw, a chanddynt hawl gyfiawn i'r enw. Mae holl eppil y rhigymwyr wedi bod, os goddefir y gymhariaeth, fel cynnifer o gylion yn heidio o gylch ac yn chwythu ar "angeu'r groes" nes anafu'r wir wers a gynnwysa a chymylu rhyngom a gwir fawredd a gogoniant yr amgylchiad. Oblegyd nid yw sôn a siarad am y "goron ddrain a'i chur, y fantell goch a'r liccer sur," "yr hongian ar y pren er diffodd llid y nen," "yr hoelion dur trwy ei gnawd ar groesbren îr," "yr afon ddwyfol loew las o'r clwyfau'n rhedeg ma's," "ei waed yn llifo'n goch o'i ben i'w draed," a phethau cyffelyb, yn dangos nemawr yn rhagor, gellid meddwl, nag ymgais i aredig y teimladau trwy aros uwchben a chyfeirio bysedd at bob rhan o'r olygfa galon-rwygol. Mae y fath ddesgrifiadau yn codi oddiar olygiadau isel ac afiach, ac yn eu tro yn gwasanaethu i fagu a meithrin yr unrhyw. Cynnwysant lawer o'r fath iaith ag a ddefnyddir, ac amlygant mewn mesur helaeth yr un awydd i gynyrchu braw a syndod ag a ddangosir gan faledwyr diddysg a digymeriad ar hyd heolydd ein trefydd mawrion pan yn canu neu yn bloeddio, gyda manylder teilwng o destun uwch, yr holl amgylchiadau dychrynllyd cydfynedol a marwolaeth rhyw gydgreadur anffodus a fo wedi myned dan gosp drymaf cyfraith y wlad. Yn wir, adgofiant ni o ran eu harddull a'u chwaeth, yn unig bod eu testun yn fwy rhagorol,

> "Of the gross fictions, chanted in the streets,
> By wandering rhapsodists,"

yn nhrefydd Groeg yn yr hen amser. *Sensation writers* o'r fath waelaf yw llawer o'n emynwyr; rhai yn ymgoneddu mewn dweyd yr hyn o'i iawn ystyried a fyddai yn ddigon i yru merched a gwragedd ein cynnulleidfaoedd i lewygon. Ar yr un pryd rhaid addef fod natur gyffrous y cyfansoddiadau saelion hyn wedi bod yn un achos o'u poblogrwydd. Mae yr anwybodus mor hoff o ba beth bynnag sydd yn synnu, cynhyrfu a dychrynu.

4. Mewn cysylltiad a phictwrau cyffrous hymnau yr hen fardd, mae yn ammhossibl peidio crybwyll eu *harddull sathredig*, fel wedi bod yn offerynol, mewn rhan, i'w gwneyd yn boblogaidd. Iaith y cyffredin bobl, yn ei gwaeleddau a'i rhagoriaethau, fel y siaradent hi yn oes y bardd a gawn yma. Nid llawer o argoel sydd fod yr awdwr wedi eistedd i lawr gyda'r bwriad i gyfansoddi. Gellid meddwl yr ymddibynai fwy ar ei gof nag ar ei ysgrifell. Wrth reswm rhaid ei fod ef ei hun, neu rywun arall drosto, wedi dodi yr hymnau ar bapyr—a deallaf fod llawysgrifau yn perthyn iddo yn meddiant rhai o'r teulu ac eraill yn awr—a difyr fyddai cael golwg arnynt, yng ngwaith ei law ei hun; ond nid oes lle cryf i gasglu ddarfod iddo erioed ddiwygio a thrwsio nemawr ar ei gyfansoddiadau, nac wrth ysgrifenu nac wrth barottoi i'r wasg. Ni fu hymnau erioed a llai o waith celfyddyd arnynt.

Mae yn amlwg nas gofalai'r bardd lawer am y wisg allanol, nac yr ymdrafferthai lawer i ddewis y geiriau mwyaf cymhwys. Gwahaniaethai yn fawr oddiwrth y ddau Wesley yn hyn. Prin y mae yn angenrheidiol, wedi i ddyfyniadau mor helaeth gael eu gwneyd o'r hymnau, i nodi uurhyw engreifftiau neillduol o'u harddull sathredig. Fel un peth dylid sylwi, nad yw, (fel y gellid dysgwyl i bob un yn cyfansoddi hymnau, math dwys ac uchel o lenyddiaeth, i wneyd) yn gofalu am burdeb iaith. Mae ei Gymraeg yn drwsgl i'r eithaf, oddieithr yn rhai o'i ehediadau goreu. Heblaw hyn, brithir ei hymnau gan eiriau Seisnig yn eu ffurf wreiddiol; megys *plain, tide;* neu fel y dygwydd fynychaf, wedi eu haner Cymreigio; megys shalens, mentro, landio, ffeindio, claimio, resolfo, pledio, blotto, stopio, passo, altro, medswn, *(medicine)*, cwnsel, seinet, *(signet)*, criw, ffri, liccer, *(liquor)*, twrne, *(attorney)*, leflo, trysto, a'r cyffelyb, amledd mawr o honynt. Mae tòr grammadeg ym mhell o fod yn fater o syndod i bwy bynnag a ddarlleno ond ychydig o'r hymnau hyn. Ceir yr aceniad yn ofidus o fynych yn hynod o anystwyth a chrwcca; a hyny serch nad yw yr hen fardd yn malio mymryn i gnocio allan lythyrenau ac hyd yn oed sillafau cyfain, os yn sefyll ar ei ffordd. Mae llawer o'r penillion yn anhawdd i'w darllen, a'r olwg ar y rhan fwyaf o honynt yn dra anhardd gan mor fynych y bydd y geiriau yn cael eu hyspaddu. Mae twyll-odl i'w gwrdd braidd ym mhob penill lle mae'r demtasiwn leiaf i hyny. Mae rhai llinellau yn yr argraffiad ger fy mron, nad beth am argraffiadau eraill, yn hollol wag o bob synwyr. Nid oes neb wedi darllen y dyfyniadau a wnaed eisioes heb sylwi ar lawer o eiriau ac ymadroddion rhy isel ac ysmala i'w harfer, gydag un chwaeth na phriodoldeb mewn hymnau o fawl i Dduw. Mae yn wir bod càn mlynedd yn gwneyd cyfnewidiad dirfawr mewn iaith, a bod ymadroddion a allasent y pryd hwnw wisgo cymeriad gwahanol erbyn heddyw wedi myned yn sathredig neu ysmala. Ond nid yw yr ystyriaeth hon yn ddigon i gyfiawnhau gwaeleddau arddull y bardd. Ceir yma ugeiniau o linellau na ddylasent fod wedi ymddangos erioed mewn dim yn dwyn yr enw o hymnau. Yr oeddynt yn warthus o isel ar y pryd y cyhoeddwyd hwy gyntaf. At lawer a roddwyd eisioes, cymerer a ganlyn, a dyfalu gyda pha effaith y cenir hymnau yn cynnwys y fath linellau a hyn yn addoldai yr oes hon. Gyda chyfeiriad at gariad yr Iesu yn gadael y nefoedd, dywed :—

Pwy 'madewai a mynwes glud ei Dad, Er mwyn y *rhai a sugnai'i wa'd.*

. . . . . .

Daw i ben arfaeth wên, *Chwardded uffern am ei phen.*

Troi 'rw'i beunydd yn y llacca, Nes 'rw'i bron a llwfrhau,
Mellt a chenllysg yn un storom, Sy'n fy nghuro yn ddidrai;
Ond mi wela'r *seren foreu,* Ag sy'n ledio'r hyfryd wawr,
Ac mae'n *dweyd,* Fe ffy'r cymylau, *Cyn pen ychydig fwy nag awr.*

. . . . . .

Treuliais ddyddiau'n methu chwerthin, Dyddiau o och'neidio 'n brudd.

. . . . . .

Fe fwyt' pryfed dorf o nwydau, Oedd yn mlino i er's dyddiau.

Cyfansoddodd hymn mewn cystudd lle y desgrifia'r nefoedd fel hyn :—

Ni ddaw llygad trythyll yno, Lle nad oes un cnawd i dwymo;
Ni ddaw aflan chwant priodi, Fyth ar y trigolion hyny;
Gwreicca a gwra, elfen danbed, Yn y bedd a fwyt' y pryfed.

. . . . . .

Gad i mi orphwys yna tàn *Ddiferion gwaed y groes.*
. . . . . .
Mil o bosïau sydd Bob awr o'r dydd a'r nos,
Yn gwylio uwch pob cred, Ar hyd a'r lled a'r groes.
. . . . . .
Rhwyma'r ddraig tro ni'n diengyd,
Siga'i siol, *tyn ei chol,** Rho iddi farwol ergyd. *Ei cholyn.

Am yr hoelion yn nhraed a dwylaw'r Iesu, cana :—

Mi glywa' swn (dybygwn i) *'r morthwylion yn eu pwyo.*
. . . . . .
Fy nghalon galed megys fflint, 'Nawr dadlaeth fel y dyddiau gynt.

Byddai yn hawdd lliosogi engreifftiau o'r fath hyn wrth yr ugeiniau yn y fan hon; dichon y byddai'n oreu crybwyll, gwaeledd cyffredin iawn yn yr hen fardd, sef yw hyny tòr ffigwr. Mae yn hoff iawn o ffigwrau neu droellau ymadrodd, ond mynych iawn mae yn anghofio neu yn methu a chario'r ffigwr allan; tŷr hi yn ei haner a neidia i ryw ffigwr arall. Barnodd Iolo Morganwg hi yn ddyledswydd arno, er nad oedd neb yn ddeheuach gyda hwynt nag efe pan yr ewyllysiai, i ymgadw yn ei Salmau rhag "mawr ymarfer a throellau ag addurnau, am nad oedd cyffrediniaid Cymru yn eu deall;" a chyda thôn geryddol, a'i olwg feallai ar y pryd ar ein bardd, ychwanegodd: "gellir dywedyd llawn gymmaint am y rhan fwyaf ym mhell o'r athrawon crefyddol." Barnai Williams—os oedd hefyd wedi cymeryd hamdden i ffurfio barn ar y mater—yn wahanol. Mae ei hymnau fodd bynnag yn llawn o ffigwrau, a dychrynllyd y mŵrddrad a wna arnynt yn aml. Gan iddo anturio i wneyd defnydd mor helaeth o honynt, rhaid i ni ystyried ein hunain yn rhydd i'w gondemnio am ei annybendod yn hyn o beth. Mae y cyhuddiad hwn wedi ei ddwyn i'w erbyn gan ei edmygwyr penaf, fel nad oes angen ymhelaethu arno yma. Yn wir ymddengys fod G. Hiraethog, oblegyd y rheswm hwn o dòr ffigwr, yn gystal ag am resymau eraill yn ei gyfrif yn annheilwng o deitl uwch na "bardd haner pàn." Mae coron ddrain a hoelion yn cannu fel yr eira. Mae afonydd yn rhoi goleuni :—

O tan y groes y torrodd, Afonydd mawrion sydd
Yn troi tywyllwch dudew, Yn awr yn haner dydd.

O dan y pen hwn, dybygid, y daw ei waith yn sôn am "waed calon seraphiaid y nef." Mae "bwystfilod rheibus iawn" yn *denu* gyda'r hen fardd. Mae'r linell hon i'w chael: "*Esgynodd* Creawdwr y nefoedd *i lawr*." Am y tân a ennynasid ynddo dywed—

Nid o'r ddaear daeth ei *wreiddyn,* Cariad pur y nefodd fry.

Ond rhaid terfynu y tro hwn. SUETONIUS.

O.S.—Fel gwallau argraphyddol o bwys yn fy llythyr diweddaf, noder tud. 77 y 15ed llinell o'r gwaelod, yn lle "brwsh mawr *o gariad*," darllener "*a garw*." Doder y penill Saesneg tudal. 81, (gyda newid *were* i *was*) ar ol y nodyn ar odre'r ddalen tudal. 80.

A fedr rhywun o'm cyd-ohebwyr roi i mi ystyr a tharddiad y gair *fwrfais* neu *bwrfais* a geir yn hymnau Williams?

"Boed fy mwyd a'm hyfryd fwrfais A fy mhleser tra f 'w i byw."

Eto—

"Mae dy lais yn rhoi dystawrwydd, Ar holl fwrfais wag y byd." S.

Mr. Gol.,—Teimlaf yn ddiolchgar i chwi am osod y Traethawd canlynol yn yr Ymofynydd. Yr eiddoch yn barchus, Cynonwyson.

TRAETHAWD AR RWYMAU A DYLEDSWYDDAU PERTHYNOL RHWNG MEISTR A GWEITHIWR.

(erbyn eisteddfod y "carw coch," aberdar.)

"Chwi feistriaid, gwnewch i'ch gweision yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn," Col. iv. 1. "Chwi weision, ufuddhewch ym mhob peth i'ch meistriaid." Col. iii. 22. "Trwy chwys dy dalcen y bwytai fara;" ond "Teilwng i'r gweithiwr ei fwyd." Ië, *a'i ddillad*, dywedaf finau, yn yr oes a'r hinsawdd hon.

Foneddigion, a gweithwyr yn gyffredinol; goddefwch i mi eich hanerch mewn cariad brawdol, a rhwymyn y gwirionedd, am rwymau a dyledswyddau perthynol rhwng meistr a gweithiwr.

Eglur yw nad oes un gwrthrych creadigol yn hollol ymddibynu arno ei hunan; o'r gwyfyn disdadlaf hyd y bodau mwyaf ysblenydd yn ffurfafen y ser: mae yr haul, er ei fawr ogoniant, yn ddyledus i'r awyrgylch am lydanu a dosbarthu ei wres a'i oleuni;- felly mae'r ddaear, y lleuad, a'r holl gyrph tywyll eraill yn ddyledus iddo yntau am y gwres a'r goleuni fwynhant hwythau, er eu meithriniad a'u gogoniant yspleneiddwych. Felly mae yr holl fydoedd siriolwych a dysglaer trwy ëangder y ffurfafen fry. Trwy bwysiad un a thyniad arall, maent yn chwyrnellu oddiamgylch eu gilydd er achosi y tymorau; gwanwyn, haf, hydref, gauaf; gwlaw, sychin, oerni, a gwres, er mawr fendith i bob creadur, ond yn fwyaf o'r cwbl i'r dyn. Ac felly mae yn natur pob creadur byw fod yn rhaid iddo chwilio allan, ac hela ei ymborth ei hun. Mae yn rhaid i'r dyn hefyd chwilio allan ei ymborth, a'i wisgoedd, ac amrywiol bethau eraill cyn geill fyw a bod yn gysurus tra fyddo yn y byd yma: megys trefnu, dosbarthu, adeiladu, gwrteithio, llafurio, hau, medi a chywain i ysguborau—dyfeisio, a gwneuthur pob math o offerynau cyfaddas at ei amrywiol alwedigaethau: megys cloddio, cau, ceibio, a dyrnu; codi yn fore a dilyn yn hwyr. Eto, er gwneyd hyn oll, ni fydd dyn yn gwbl gysurus o ran ei angenrheidiau yn y bywyd hwn. Mae yn rhaid cael ystor ac ystordai i'w cynnwys; a meistr a llawer o gyfoeth i'w hebgor ganddo i aros hyd amser dyfodol y rhew a'r eira. Ac eglur yw nas gall y meistr wneuthur y cwbl o hyn heb gynnorthwy y gweithiwr; ac hyspys yw fod y meistr a'r gweithiwr yn ymddibynu y naill ar y llall; nis gall un fyw yn gysurus iawn heb y llall gydag ef; canys cyfoeth sydd yn gwneyd un yn feistr, ac anghen sydd yn gwneyd y llall yn weithiwr.

Eto, mae yn rhaid cael meistr cyfoethog iawn, neu undeb meistradoedd cyfoethog, cyn gellir treiddio i grombil anghysbell a dirgelaidd y ddaear am drysorau gwerthfawr, defnyddiol, ac angenrheidiol at gysurdeb dynoliaeth: tuag at wneud offerynau a dodrefni llesol a gwasanaethgar; megys haiarn, plwm, copr, efydd a glo; aur, arian ac amrywiol ddilidau eraill gwasanaethgar a defnyddiol; yn nghyd a pheiriannau celfyddgar, drudfawr, gwasanaethgar ac angenrheidiol at bob rhyw berwyl; ac o feddiant ac annogaeth y meistr. A thrwy ddyfais a llafur y gweithiwr y maent; a hyny sydd yn brawf digonol fod y meistr a'r gweithiwr o angenrheidrwydd yn ymddibynu un ar y llall.

Mae yn angenrheidiol hefyd fod y meistr yn gyfoethog cyn gall sefyll ei dir yn barchus pan fyddo y galwad yn llac ac yn farwaidd; a gwerth miloedd

ar filoedd o bunoedd o'i nwyfau yn gorphwys ar ei ddwylaw i aros angenrheidiau y wlad, a galwad y marchnadoedd ; mae hyn yn galw yn uchel ar y gweithiwr difeddiannau i barchu ei feistr, ac ymddwyn yn gyfiawn tuag ato, ac yn rhwymo pob gweithiwr i fod yn diwyd, onest a gofalus, ac i edrych gyda sirioldeb am ei lwyddiant, a'i ddyledswydd yw yn y fath amgylchiadau i ymfoddloni, ac i ymdrechu yn egniol gyda ei feistr i gyd-ddwyn y baich.

Peth arall hefyd sydd eglur : sef, bod y meistr yn anturio ei feddiannau yn aml ar ei golled, neu o leiaf heb fawr o elw ; ac yn agored trwy ddamweiniau i golli miloedd o bunau ar yr un pryd oddiwrth fasnachwyr neu y fasnach ; ac y mae hyn hefyd yn rhwymo y gweithiwr i gydymdeimlo â'i feistr, ac yn ddyledswydd arno i ofalu bod yn ddiwyd yn ei wasanaeth, gan ystyried fod ei lwyddiant ef yn ymddibynu llawer ar lwyddiant ei feistr.

Clywais ambell un yn dywedyd—"Dyn segur, bolfras, ac yfwr gwin yw fy meistr i, a'i holl hyfrydwch yw sugno mer fy esgyrn, ac yfed chwŷs fy nhalcen ; ac ni phrisiai pe byddwn i gan yr ysbryd drwg oni bai ei drachwant am yr elw sydd yn deillio oddiwrthyf i'w gynnal o bob danteithion yn ei fusgrellni." Weithiwr buddiol ; nid dyna'r ffordd, gofala rhag bod y bai yn sefyll ar dy drothwy dy hun, ufuddha i'th feistr, paid a dywedyd yn ddrwg am dano, eithr gwasanaetha ef yn ddiwyd ac yn gyfiawn ; yna ti a'i ennilli ef i rwymau ei ddyledswydd tuag atat yn ol y cymhwysderau fo ynot. Boddlona i'th gyflog a'th sefyllfa ; paham y ceisi sefyllfa nas gelli ei chyflawni ? Yn hytrach ymfoddlona i'r alwad yr hon y'th alwyd iddi ; ni ddichon pawb fod yn feistr ; am hyny teilwng yw ymostwng i'w drefn. Gwna yn fawr o'th enill ; gwna ymdrech deg dy hunan am wellhau dy sefyllfa, gwna gyfiawnder â thi dy hun, ac yna byddi yn rhwym o weled anghyfiawnder dy feistr yn llai ; ac mae hyny yn ddyledswydd arnat ti heb ymddiried i neb arall : ac os cei y ffafr o ddyrchafiad gan dy feistr, mwynhâ hyny yn hytrach, ond cofia bydd y rhwymau a'r dyledswyddau yn fwy arnat i'w talu o ffyddlondeb.

Eto eglur yw fod gofalon dwysion ar y meistr, i annog a phlanu gwaith allan i'r gweithiwr—prynu, gwerthu, edrych at bob gorchwyl pa un ai ateb a'i peidio i'r dybenion fyddo, a gofalu am arian mewn amser cyfaddas i dalu i'r gweithiwr ei gyflog, &c.

Ac am hyny mae rhwymau ac mae yn ddyledswydd hefyd ar y gweithiwr nid yn unig ymostwng a rhoi parch i'w feistr, ond i'w amddiffyn hefyd yn mhob achos da. Os gwel rywun yn afradu ei feddiannau, ei ddyledswydd yw argyhoeddi y cyfryw afradwr, ac os na thycia, mynegu i'w feistr am y cyfryw ddrygioni.

O ! meddai rhywun, "yr wyt ti yn feistr dy hunan, ac nid wyt ti yn gweled un gwerth yn y gweithiwr, ond y meistr yw y cwbl genyt ti."

O na, na, nid felly hefyd, canys y gweithiwr yw prif gynhyrfiedydd pob dymunoldeb daearol. Efe sydd yn chwilio allan drysorau, yn gwneyd pob cywreinwaith a chaledwaith : mae ef hefyd yn pereiddio anian surllyd ffrwythau, o'u naturiaeth cysefin, yn felus i'r archwaeth, yn amlhau y cynyrch, yn breisghau yr aeron, ac yn perarogleiddio y blodau ; ac hulio bwrdd ei feistr â brasder a danteithion, am hyny mae rhwymau a dyledswydd ar y meistr i dalu y gyflog gyfiawn i'r gweithiwr am ei wasanaeth yn ol ei ffyddlondeb a'i gymwysderau.

Y gweithiwr hefyd sydd yn adeiladu, cloddio, ceibio, hau, medi, a chywain i ysguborau, a chludo i ystordai ; ac yn gofalu am eu cadwraeth rhag

braendod a malldod; ac os bydd y gweithiwr yn gyflawn ac o gymwysderau, mae yn ddyledswydd ar y meistr i ddyrchafu y gweithiwr i le uwch o bydd anghen, yn lle ymofyn am ddieithr-ddyn i gyflawni gwell neu ysgafnach swydd; ac y mae rhwymau ar y meistr yn ol natur a theilyngdod pob gwaith neu swydd, i'w dalu a'i wobrwyo yn gyfartal i'r alwad a'r ymddiriediad fo gan y gweithiwr odditan ei feistr—ac os na wna felly bydd y meistr yn feius. A'r hwn ni wnelo gyflawnder, pa fodd y dysgwyl gyflawnder gan arall? Canys "teilwng i'r gweithiwr ei fwyd." Teilwng hefyd i'r meistr gyflawnder ar ei feddiannau. Mae'r mater yn gynil iawn rhwng y meistr a'r gweithiwr, ac ni ddylai rhyw bellafoedd mawr fod rhyngddynt oherwydd eu hagosrwydd mewn ymddibyniad y naill ar y llall; a da iawn fyddai i'r meistr a'r gweithiwr pe byddai mwy o undeb a chariad rhyngddynt er rhwyddhau neu ysgafnhau llawer o anhawsderau, colledion ac amser, a chadw pob peth mewn gwell trefnidedd *(economy)*.

Fel y mae rhagoriaeth seren ar seren mewn gogoniant, felly mae rhagoriaeth dyn ar ddyn yma ar y ddaear, yn enwedig mewn sefyllfa a gwybodaeth. Er hyny nid all brenhinoedd nac ymerawdwyr fod yn hir yn eu hardderchogrwydd a'u gogoniant ysblenydd heb y gweithiwr. Felly y meistr, er maint ei harddwch a'i orlewndid o aur, arian a gwisgoedd goreurog o sirig, pali ac ystinos, ynghyd â gemau grisalaidd, &c., &c., mewn esmwyth eisteddleoedd *(sofas)*, a gorweddfa mânbluog. Heb weithiwr, heb ddim cysur maes o law. Mae hyn yn rhwymo y meistr i weled gwerthfawrogrwydd y gweithiwr, ac mae yn ddyledswydd arno ei nabod a gwneyd cyflawnder âg ef.

Mae dyn yn wahanol i bob creadur arall ag sydd yn adnabyddus, er y gwyddom am rai creaduriaid, o reddf a naturiaeth, yn paratoi eu hymborth yr haf erbyn y gauaf; ond mae dyn a thuedd ac awyddfryd ynddo am bentyru trysorau er mwyn eu gwerthfawrogrwydd a'u glendid, er nad ydynt fwytadwy, a hyny er eu cyfnewid am bethau fyddo mwy buddiol at gynhaliaeth bywyd—a thrwy hyny yn ymosod ei iechyd a'i fywyd yn aml er mwyn eu cyrhaedd, o flaen tân eiriaswyn, y'mysg rhodau yn chwyrnellu yn ei ymyl, a rholiau yn rhincian a chlindarddian yn ei glustiau yn ddigon i fyddaru y menydd! A pheirianau berwedig o angerdd gwyrdd-welwaidd yn chwibanu ac yn rhuo, yn bygwth chwilfriwio yr holl adeilad a'r cwbl o'i amgylch yn ganddryll fel ûs, a bwrw y gweithiwr o'i chwys a'i ludded i dragywyddoldeb bob mynydyn.

Mae y gweithiwr tanddaearol hefyd yn gorfod ymosod ei hun mewn mwy o beryglon nas gwyr neb am danynt ond y rhai sydd yn brofiadol—o'r fynyd yr elont i mewn hyd y fynyd y delont allan—a rhai am ddeuddeg neu bymtheg awr yn y dydd, heb ond tocyn bychan o fara a chaws am yr ysbaid hyny o amser, heb weled "gwyneb haul na llygad goleuni," ond goleu canwyll mewn awyr anmhuraidd ac afiach, ac mewn perygl beunydd i ddarn o'r graig syrthio yn sydyn a'i lethu—tôri aelod, ei archolli neu falurio ei gyfansoddiad yn chwilfriw. Brydiau eraill angherdd mygfaenol (*damp*) yng nghynwysedig â'r awyr tewychlyd hwnw (ond yn fynychach mewn gwaith glo na mwn) yn ymddangos yn fflam y ganwyll fel tafod gwelwlas tair neu bedair modfedd o angherdd yn llamu i fynu ac i lawr, a gwreichion gwynion yn ymdasgu trwyddi yn bygwth tori allan, ac yn aml yn gwneyd hyny nes byddo yr holl waith yn goelcerth o wenfflam eirias, ac yn ysgubo o'i blaen y gweithwyr, ceffylau a'r cludiau llawnion gyda thwrf arswydus, gan chwil-

friwio a golosgi dyn ac anifail yn ulw! Ow! sefyllfa y gweithiwr tanddaearol yn dra aml gan ddychryn ac ansicrwydd! Ac mewn rhai manau eraill mae y gweithiwr yn gorfod crogi ei hun wrth raff neu gadwyn i ddisgyn ac esgyn i, ac o'i waith; rhai prydiau 100 neu 140 llath o ddyfnder wrth beiriant heb wybod pa eiliad tòr caingc neu dorch, a'i ollwng yn bendramwnwgl i ddinystr! Mae hyny yn gosod rhwymau arbenig ar y meistr i ofalu am y gweithiwr, gan fod eu hymddibyniad mor agos un ar y llall; yn ail i dad am ei blentyn, ac yn ddyledswydd arno i ofalu am ei ddiogelwch i'r eithaf.

Gwyddom wrth natur a chyfansoddiad y greadigaeth fod yn rhaid cael gweithiwr, ac annichonadwy cael gweithiwr *caled* heb *anghen;* fel dywed yr hên ddiareb, "Anghen sydd yn peri i'r wrach druthan." Ac felly anghen sydd yn gwneuthur gweithiwr caled a diwyd. Ac nis gellir hyn heb rwymau ar y meistr i beidio rhoddi gormodedd o gyflog iddo, onide efe ehêd yn rhy uchel o'i afael. Ond eto mae yn ddyledswydd ar y meistr i roddi *digonedd* o gyflog i'r gweithiwr i gael ei gynhaliaeth yn gysurus os bydd ef yn ddiwyd a ffyddlon yn ei alwedigaeth. Ni waeth pa weithiwr: mae yr hwn sydd yn fon y clawdd a phwll y domen, mor angenrheidiol i'r meistr a'r hwn sydd yn y swyddfa; ond yn unig y rhagoriaeth mewn cymhwysderau sydd rhwng dyn a dyn, a phwysigrwydd yr hyn a ymddiriedir iddo gan ei feistr, ynghyd â'r peryglon, caethiwed, a'r caledwaith fyddo gan y gweithiwr i fyned drwyddynt. Pe byddai pob gweithiwr yn ddiwyd, onest a ffyddlon, fe fyddai yn hawsach i'r meistr wneuthur cyfiawnder. Ond nid felly pawb, ac mae hyny yn rhwymo y meistr i fod yn galettach ysgadfydd nac y byddai.

Mewn perthynas i gyflog y gweithiwr—gwelais rai wedi cynnyg sefydlu cyflog i'r gweithiwr; ac yn mhlith rhai o honynt eu cynnygiad oedd fel hyn, "Canys beth bynag fyddai traul yr ymborth i'r gweithiwr, fod cymaint arall yn ofynol i wneud y gyflog i fynu tuag at ddillad ac angenrheidiau ereill." Ond os yw hyny yn cyfateb mewn gwlad a thref, nid yw yn ddigonedd ymhlith y gweithfeydd haiarn, &c., oherwydd caledwaith, lludded, caethiwed, a pheryglon ynghyd â'r amledd anafon sydd mor fynych yn eu cyfarfod: am hyny mae yn ddyledswydd ar y meistr wobrwyo yn gyfatebol i'r caethiwed a'r peryglon.

Ac os byddai i weithiwr weithio dan yr un meistr ugain mlynedd ac uchod, yn onest, ffyddlon a diwyd, ac o ymarweddiad sobr a chymedrol; ac iddo gael ei anafu yn ei wasanaeth, bydd yn ddyledswydd ac yn gyfiawnder i'r meistr trwy ei annogaeth a'i ddylanwad ar foneddigion ereill yn ei ardal i roddi lle o gynhaliaeth gymedrol iddo yn ei anafod.

Gwir yw fod llawer mwy o drafferth ar y meistr i drafod y gweithwyr pan fyddo y gyflog yn uchel a'r ymborth yn rhad, nag ydyw pan fyddo y gyflog yn isel a'r ymborth yn ddrud; oherwydd mai nid diwyd a ffyddlon pawb i'w meistr yn fwy nag i eraill. Heblaw hyny mae llawer o ieuenctyd anystyriol ag sydd yn tybied eu hunain heb fod yn rhwym i neb nac i ddim ond eu harchwaeth a'u mympwy eu hunain, ac felly yn achosi llawer o gynnwrf a cholledion i'r meistr a'r gweithiwr, a hyn mewn gwirionedd yn erbyn ewyllys y gweithiwr ffyddlon, diwyd, a chyfiawn. Ond fel mae'r gwaethaf modd mae ef yn gorfod dioddef yr un fflangell a'r anffyddlon a'r drygionus; a phe byddai i'r meistr allael eu hadnabod byddai hyny yn ei rwymo i edrych arnynt gyda llygad eddigeddus a gwyliadwriaethus, ac yn ddyledswydd arno i drugarhau wrth y ffyddlon a'r diniwaid.

Ystyria pob gweithiwr onest ei fod yn ddyledswydd ar y meistr i edrych yn llym ac yn graffus gydag awdurdod ar y gweithwyr yn gyffredinol, onide byddai rhai yn cael gwneuthur y cwbl ac ereill yn musgrellian eu hamser neu y gwaith i fod ar ol.

Eglur yw fod rhwymau ar y meistr i gydnabod ei ymddibyniad ar y gweithiwr, ac yn ddyledswydd arno ei wobrwyo yn gyfartal i'w lafur tuag at ei gynhaliaeth.

Ac felly mae rhwymau ar y gweithiwr i gydnabod mai tan adain y meistr mae ef yn cael ei fywioliaeth, ac am hyny ei fod yn ddyledswydd arno ei wasanaethu yn ffyddlon ac yn gyfiawn. Ac felly yn debyg i hyn mae "Rhwymau a dyledswyddau rhwng y Meistr a'r Gweithiwr." Felly, "Chwi feistriaid na chamattaliwch gyflog y gweithiwr." Gwel Iago y bumed benod. Ac etto, "Y gweision, byddwch ddarostyngedig gyda phob ofn i'ch meistriaid," 1 Pedr ii. 18. PROFIEDIG.

YSTADEGAU'R DDAEAR.

Y MAE'R ffeithiau hynod a ganlyn yn cael eu rhoddi gan yr *Abeille Medicale*:—Y mae'r ddaear yn cael ei phreswylio gan 1,288 o filiynau o drigolion, sef 369,000,000 o'r rhyw Caucasiaidd; 552,000,000 o'r Mongoliaid; 190,000,000 o'r Ethiopiaid; 100,000,000 o'r Indiaid Americanaidd; a 200,000,000 o'r Malayaid. Y mae ymhlith y rhai hyn 3,064 o ieithoedd, ac y maent yn proffesu 1,000 o wahanol grefyddau. Y mae nifer y marwolaethau sydd yn cymmeryd lle bob blwyddyn yn 333,333,333, neu 91,954 bob dydd, 3,730 bob awr, 60 bob munyd, ac *un* bob eiliad, felly gyda phob curiad y mae ein calonau ni yn rhoi y mae un bod dynol yn marw. Y mae'r golled yma yn cael ei wneuthur i fynu gan nifer y genedigaethau. Hyd bywyd dyn ar *average* dros yr holl fyd yw 33 o flwyddi. Y mae un rhan o bedwar o boblogaeth y ddaear yn marw cyn cyrhaedd saith mlwydd oed, a'r hanner cyn cyrhaedd dwy-ar-bymtheg. O bob 10,000 nid oes ond un yn cyrhaedd cant oed; dim ond un o bob 500 yn cyrhaedd pedwar ugain; a dim ond un o bob cant sydd yn cyrhaedd triugain-a-phump. Y mae pobl briod yn byw yn hwy na rhai heb briodi. Y mae dyn tàl yn debyg o fyw yn hwy na dyn byr. Hyd hanner cant oed y mae i fenywod fwy o siawns am fyw na gwrywod, ond wedi hyny y mae'r siawnsys yn gyfartal. Y mae 65 o bob mil yn priodi. Mehefin a Rhagfyr yw'r misoedd yn y rhai y mae mwyaf o briodasau yn cymmeryd lle. Y mae'r plant sydd yn cael eu geni yn y gwanwyn ar y cyffredin yn fwy gwrol na'r rhai sydd yn cael eu geni yn y tymmorau ereill. Y mae genedigaethau a marwolaethau yn digwydd gan fwyaf yn y nos. Nid yw nifer y dynion sydd yn alluog i gario arfau ond un rhan o wyth o'r boblogaeth. Y mae dylanwad mawr gan natur galwad ar hirhoedledd dyn; er esampl o bob cant un o'r galwedigaethau canlynol, nifer y rhai sydd yn cyrhaedd trigain-a-deg yw: ymhlith offeiriadon, 42; amaethyddion, 40; masnachwyr a *manufacturers*, 33; milwyr, 33; clercs, 32; cyfreithwyr, 29; celfyddydwyr, 28; proffeswyr, 27; a meddygwyr, 24; felly y rhai sydd yn myfyrio ar y gelfyddyd o estyn einioes ereill yw y rhai mwyaf tebyg o farw yn ifangc, wrth bob tebyg oherwydd yr *effluvia* i'r hwn y maent yn barhaus yn agored. Y mae yn y byd 335 miliwn o Gristnogion, 5 miliwn o Iuddewon, 600 miliwn yn proffesu rhai o grefyddau Asia, 160 miliwn o Fahometaniaid, a 200 miliwn o Baganiaid. O'r Cristnogion y mae 170 miliwn yn proffesu y credöau Catholicaidd, 76 miliwn y credöau Groegaidd, a 80 miliwn y credöau Protestanaidd.

Q. R.

"Y mae'r gyfundrefn Hindwaidd yn dysgu fod y ddaear yn gorphwys ar gefn Elephant, a'r Elephant ar gefn Cragen-grangc. Ond ar beth mae'r Gragen-grangc yn gorphwys? Y mae Cragen-gangc mawr y ddifinyddiaeth boblogaidd yn gorphwys ar—*assumption.*" THEO. PARKER.

HAWL DYN I FARNU DROSTO EI HUN—A CHYFRIFOLDEB DYN AM EI FARN.

AT Y GOLYGYDD,—Syr,—Y sylwadau a ganlyn, ar hawl a chyfrifoldeb dyn gyda golwg ar y farn a ffurfia, a gymerwyd allan o'r *Great* am Gorphenaf 1854. Os bernwch chwi hwynt yn gymmwys, teimlaf yn ddiolchgar am iddynt gael ymddangos yn yr YMOFYNYDD.

Yr eiddoch yn garedig, DUDOCH.

I. *Hawl dyn i farnu drosto ei hun.*—Yr ydym yn byw mewn oes, yn yr hon yr ydym yn cael ein galw i roddi rheswm am bob peth a wnelom. Ni chaniateir i ni wneuthur dim, heb fod dan yr anghenrheidrwydd o brofi ein hawl i wneuthur hyny. Ni chawn na phregethu, na dysgu, na bedyddio, na dim heb i'r cwestiwn anhyfryd hwnw gael ei ofyn i ni, "Beth yw eich hawl i wneuthur felly?" Buasem yn tybied, er hyny, y cawsem lonydd i ddefnyddio ein meddwl fel y mynem; na buasai y fath holiad yn cael ei gyflwyno i ni am feiddio barnu drosom ein hunain, ond camsyniad mawr ydyw; gelwir arnom i brofi ein hawl i *feddwl*, ac, feallai, cyn hir i agor ein llygaid, i weled, i glywed, i gerdded a phob peth. Mae peth fel hyn, onid ydyw, ddarllenydd, yn ddigon poenus; oblegyd y mae yn anmhosibl gwneuthur rhai pethau o herwydd eu bod yn rhy hawdd. Pa philosophydd a all byth *brofi* nas gall peth *fod* a *pheidio* bod ar yr un pryd? Pwy fedr ddangos drwy Arbwylleg a *Syllogism* fod y cydol o beth yn fwy na rhan o hono? Ac wrth ystyried peth mor hawdd a naturiol yw i greadur rhesymol ffurfio barn, y mae yn ymddangos braidd yn anmhosibl profi ein hawl i wneuthur hyny. Yn awr, nid af ddim i son am y dadleuon yn nghylch yr olyniaeth Pabaidd, a rhyw bethau felly; na, nid wyf yn meddwl cyffwrdd dim â phethau felly; ond mi a ymdrechaf ddwyn y pwnc o fewn cylch llai, mwy syml, a hawdd ei drin, drwy edrych a oes dim modd ei ddwyn o dan ryw egwyddor gyffredinol, y sydd yn perthyn i holl waith y Goruchaf. Sylfaen a rheswm pob braint a hawl, yw gallu a chymhwysder. Y mae yr egwyddor yma yn nodweddiadol o holl weithredoedd y Creawdwr; ac yn ysgrifenedig,—yn ddarllenadwy ysgrifenedig arnynt oll. Rhoddi gallu a chymhwysder sydd yr un peth a rhoddi *comisiwn*. Nid yw Duw yn gwneuthur dim heb ddyben; pan y mae yn rhoi gallu, y mae yn rhoi gwaith—pan y mae yn rhoi cymhwysder, y mae yn rhoddi swydd. Yr un peth oedd rhoddi adenydd i'r aderyn, a gorchymyn iddo ehedeg. Os oes neb mor anwybodus, nid wyf yn dywedyd *rhyfygus*, ag y gwado yr egwyddor hunanamlwg yr ydys wedi ei gosod i lawr, nid oes iddo gymaint ag un i'w bleidio o fewn y greadigaeth—cyduna pawb a phob peth i'w wrthddywedyd a'i gondemnio; yn erbyn ei haeriad, ei ïe ddisylfaen. Y mae y bwyd sydd yn ei borthi, y dwfr sydd yn tori ei syched, yr awyr y mae yn ei anadlu, y blodeuyn sydd yn gwenu arno, y beroriaeth sydd yn difyru ei glust, yr haul sydd yn ei lewyrchu, y rheswm sydd yn ei gyfarwyddo, oll, oll, âg un llais yn gwrthateb, NAGE.

> "Gosod dall ar ben dysgwylfa,
> Gosod dwl i ddysgu tyrfa:
> Dodi'r diddysg wrth y llyw,
> Sydd ddodiad dyn, nid dodiad Duw."

Y mae y Bôd dwyfol ei hun, ynte, yn datgan, drwy ei holl weithredoedd, mai gallu a chymhwysder sydd yn rhoddi hawl. Pwy bynag sydd yn

meddu cymhwysder i ddysgu, i bregethu, i weddio, i gynghori, y mae ganddo hawl i wneuthur hyny. Yr un modd y dywedwn, pwy bynag y sy ganddo allu a chymhwysder i farnu drosto ei hun, y mae ganddo hawl i wneuthur hyny, – nid oes neb o fewn y greadigaeth a hawl ganddo i wahardd iddo wneuthur felly. Absenoldeb y cymhwysder gofynol yn unig, gan hyny, a ffurfia eithriad i'r rheol gyffredin. Er enghraifft, nid yw y rhan amlaf o lawer o'r rhai mwyaf dysgedig yn ngwledydd créd, yn meddu y gallu neu y cymhwysderau anghenrheidiol i farnu drostynt eu hunain, o berthynas i gywirdeb neu anghywirdeb y testun mewn hen lyfrau, y sydd ganrifoedd o oedran. Yn ysgrifeniadau hen lenorion Groeg a Rhufain, megys Homer, Lucian, Cicero, Virgil, Livy, ac ereill, y mae llawer iawn o wahanol ddarlleniadau wedi cael eu cynnyg gan gyhoeddwyr eu gweithiau. Gyda golwg ar y mater hwn, y mae ffurfio barn bersonol yn beth sydd yn mhell tuhwnt i derfynau neb oddieithr rhyw ychydig, efallai, sydd yn awr yn fyw. O ganlyniad, ynfydrwydd fyddai i ereill, a gadael eu bod yn deall yr ieithoedd hyny, agos mor berffaith a'r eiddynt eu hunain, son am eu hawl i ffurfio barn bersonol. Y mae y sylw hwn, hefyd, yr un mor gymhwys at lyfrau yr ysgrythyr lân. Yr unig beth sydd genym i'w wneuthur dan yr amgylchiadau hyn yw, ymddiried i farn y rhai a ystyrir gymhwysaf i farnu; heblaw derbyn ychydig gymhorth mewn rhai achosion oddiwrth gysondeb y cyfeyw ddarlleniadau, a phethau o'r fath.

Heblaw hyny, y mae dyledswydd bwysig yn dal cysylltiad â'r egwyddor yma; nid amgen y rhwymedigaeth i'w bymarferyd. Y mae pob hawl yn rhagarwyddo *(implies)* dyledswydd. Nid yw y gosodaeth, *y mae genyf hawl i farnu drosof fy hun*, yn cyduno â'r gosodaeth, *y mae genyf hawl* i beidio *barnu drosof fy hun*. Nis gall y ddwy gydsefyll. Nid oes gan neb sydd yn ei meddu, hawl i'w throsglwyddo i arall, mwy nag sydd gan arall hawl i'w chymeryd oddiarno. Na, y mae *hawl* a *rhwymedigaeth* yn eiriau cydberthynasol; megys tad a mab, brenin a deiliaid, gorchymyn ac ufyddod, ffydd a thystiolaeth, achos ac effaith, a'r cyffelyb; nis gall y naill fod heb y llall.

Cyn gadael y mater hwn, anghenrhaid ydyw rhoddi dau neu dri gochel-iad. Yn y lle cyntaf, Nid yw ei bod yn ddyled arnom farnu drosom ein hunain, yn cynnwys o anghenrheidrwydd y dylem feddwl yn wahanol i ereill ar bob peth; byddai tybied hyn yn sarhad camweddus, a bychaniad anfaddeuadwy ar allnoedd a chyrhaeddiadau yr oesoedd a aethant heibio. Na, nid yw bod unrhyw farn yn *hen*, yn brawf ei bod yn gamsyniol; nac, ar y llaw arall, bod tyb yn *newydd* yn sicrhau ei chywirdeb. Nid hender na newydd-der yw mesur gwir a gau. Pe felly, nid yw gwirionedd ond peth perthynasol ac amserol; oblegyd fe fu yr hen unwaith yn newydd, ac fe a y newydd yn hen; ac nid oes dim gwirionedd dan haul!

Eilwaith, pan ddywedais bod dynion yn perchenogi yr hawl, ac o dan rwymedigaeth, i farnu drostynt eu hunain; hyny sydd, mewn cyfeiriad at ddynion ereill a ystyrir yn gyfartal â hwynt, ac wedi eu gosod dan y cyffelyb amgylchiadau. Nid oes neb mor wan a thybied fod plentyn, fel y cyfryw, yn ddeilliad o'r hawl yma; na, nid yw yr hawl yn perthyn iddo ef, oblegyd nis gallai fod yn un fraint iddo, am nas gall ei hymarfer. Nid yw y maban, neu y plentyn, nes y delo yn alluog i ymarferyd yr hawl yma, i'w ystyried yn weithredydd rhydd a moesol. Pa beth bynag a farno neu a weithredo efe, y rhieni mewn ystyr sydd yn ei wneuthur, a hwynt-hwy sydd yn gyfrifol

am dano. Pan y mae dosbarth o ddynion yn ein dysgu o dan gyfarwyddyd ac arweiniad digyfrwng y Goruchaf, ac wedi eu hysbrydoli ganddo ef, y mae yr amgylchiadau hyn, o anghenrheidrwydd yn cau allan yr hawl yma. Gelwir arnom i farnu, a hyny drosom ein hunain, y profion o'u hysbrydolrwydd a'u danfoniad, yn gystal ag i benderfynu beth y mae yr hyn a ddywedant yn ei gynnwys. Yr unig reswm sydd genym dros ein hymddygiad pan yn meiddio amheu yr hyn a ddywed ein hathrawon crefyddol, yw y ffaith nad ydynt hwy, yn yr un ystyr a'r apostolion a'r prophwydi, wedi eu hanfon, eu dysgu, a'u goleuo, gan ysbrydoliaeth digyfrwng; y mynyd y caniatâom eu bod yn anfonedigion y nef, yr ydym ar unwaith yn ymwrthod â'r hawl i farnu drosom ein hunain.

II. *Cyfrifoldeb dyn am ei farn.*—Yn y fan yma, y mae yr egwyddor yn ymgyflwyno i'n sylw mewn agwedd arall. Yr ydym wedi dangos fod gan bob dyn, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, hawl i ffurfio barn bersonol; ond dylid bod yn ofalus rhag camarfer yr athrawiaeth hon, a gwneuthur camddefnydd o'r egwyddor; a hyny drwy dybied ei fod yn canlyn oddiwrth yr egwyddor hon, fod gan bob dyn yr un hawl i farnu yn gamsyniol, ag sydd ganddo i farnu drosto ei hun,—nad oes dim niwed mewn cyfeiliorni o ran y meddwl, ac nad ydym yn gyfrifol am hyny. Y mae y naill eithafnod bob amser yn cenedlu un arall wrthwynebol. Y mae gwneuthur camddefnydd o'r athrawiaeth o'r anghenrheidrwydd o ddylanwad dwyfol er llwyddo yr efengyl, wedi peri i rai wadu yr athrawiaeth yn hollol. Y mae gwaith ereill yn gwneuthur mwy o sefydliadau neillduol crefyddol, a phriodoli mwy o rinwedd ac effeithioldeb iddynt nag y mae gair Duw yn ei ganiatâu, wedi peri i amryw fyned i eithafoedd arall, a meddwl nad oes dim gwerth ynddynt, ac y dylid hyd y nod eu rhoddi heibio yn hollol. Y mae rhai i'w cael ag sydd yn arfer priodoli pob peth sydd yn cydfyned â llwyddiant crefydd, i weddi;—nid oes dim eisiau na phregethu, na chynghori, na gwylio, na byw yn dduwiol; ond gweddio yw y cwbl sydd anghenrheidiol: ac y mae y cyfryw, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, feallai, wedi rhoi bodolaeth i eithafnod arall, sef barnu nad oes dim mewn gweddio, a hyd y nod ei roddi heibio yn hollol. Pa bryd bynag y byddo i ni wneuthur bwgan o rywbeth, fe red pobl oddiwrtho cyn belled ag y gallant. Felly y mae pethau yn bod gyda golwg ar yr athrawiaeth o hawl pob dyn i farnu drosto ei hun. Clywir yn fynych yn ein dyddiau ni, hyny yw, "yn yr oes oleu hon," beth nad oedd yr hen bobl yn yr amseroedd gynt, wedi meddwl dim am dano; a phe buasent, nid heb arswydo rhagddo y gwnaethent hyny—pan fyddo pleidiau yn dadleu ar ryw fater crefyddol, a'r naill yn cyhuddo y llall o gyfeiliorni, dyna y blaid a gyhuddir, feallai, yn ymwybodol mwy na pheidio o gyfiawnder y cyhuddiad, yn dechreu gwrthateb, a hyny gyda yr hyder mwyaf, mewn hunanymddiffyniad; "Onid oes genyf fi yr un hawl i farnu yn *wrong* ag sydd genych chwithau i farnu yn *right?*" Os meddwl y sawl a ddywed fel yna yw, "Y mae genyf fi yr un hawl i ffurfio barn a ystyrir genych chwi yn gyfeiliornus, ond yn iawn genyf fy hun, ag sydd genych chwithau i ffurfio barn, yr hon a ystyrir genych chwi yn iawn, ond genyf fi yn gyfeiliornus." Os dyna i gyd a feddylir wrth y fath ddywediad, nid ydwyf yn meddwl cyffwrdd âg ef â phen fy mys; yr wyf yn amheu a'i dyna yn unig a feddylir bob amser wrth y cyfryw ddywediad, ac o ganlyniad, y mae eisiau dyfod i'r golau o berthynas iddo; ac am hyny, ni a gymerwn beth trafferth i edrych i mewn iddo. Pan y byddis yn son am farnu yn

gywir neu annghywir, yn gam neu uniawn, y mae rhyw brofiedydd neu safon yn cael ei olygu, yn ol yr hwn y mae y farn yn gam neu uniawn ; neu â'r sawl y mae i gael ei mesur. Os barn ei wrthwynebwr yw y safon, y mae y dywediad yn eithaf priodol a rhesymol, " Y mae genyf hawl i ffurfio barn y sydd yn gamsyniol, pan ei profir wrth eich barn chwi ; ac y mae genych chwithau yr un hawl i ffurfio barn y sydd annghywir pan ei mesurir wrth fy ngolygiadau i fel safon." Ond ai dyna y cwbl a feddylir pan ddywedir, " Y mae genyf yr un hawl i farnu yn *wrong*, ag sydd genych chwithau i farnu yn *right*." Onid meddwl fy ngwrthwynebwr, pan yn dwyn yn fy erbyn y cyhuddiad o ffurfio barn gyfeiliornus ydyw, nid ei bod yn gyfryw yn ol ei farn ef yn unig, yr hyn a fyddai yn gyhuddiad plentynaidd, ond ei bod felly pan yn cael ei mesur wrth yr iawn safon, â'r hwn hefyd y golyga bod ei farn ef ei hun yn cyduno ? Ymddengys i mi mai hyny ydyw. Yn awr, cyn y gallwn benderfynu y mater hwn, y mae yn rhaid i ni gymhwyso ein sylwadau at ddyn o dan ryw nodweddiad ; naill ai fel creadur, dinesydd, neu weithredydd moesol. Edrychwn arno yn y tri chymeriad hyn : a'r cwestiwn, gan hyny yw, A oes gan ddyn fel creadur, fel dinesydd neu ddeiliad o lywodraeth wladol, neu fel gweithredydd moesol a chyfrifol i Dduw, hawl i farnu yn gamsyniol ? Yr ydym yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng hawl naturiol, hawl ddinasyddol *(civil)*, a hawl foesol.

1. A oes gan ddyn hawl naturiol i farnu yn gyfeiliornus ? Pan y soniwn am ddyn fel yn meddu unrhyw hawliau naturiol, yr ydym yn edrych arno fel unigolyn *(individual)* ar ei ben ei hun, fel pe na byddai neb ond efe ei hun yn y byd. Fel y cyfryw y mae ganddo hawl i wneuthur fel y myno ag aelodau ei gorph a galluoedd ei feddwl, y mae ganddo hawl i symud ei droed, ei fraich, a'i dafod fel y dewiso, a phan y bo da yn ei olwg. Ond pan yr edrychom arno fel yn cyfansoddi rhan o gymdeithas, mae y cwestiwn yn argemeryd gwedd arall hollol wahanol. Y mae genyf hawl naturiol mae yn wir i symud fy mraich fel y mynwyf, ei gostwng i lawr, neu ei godi i fyny ; ei daflu yn ol neu yn mlaen, yn araf neu gyflym ; ond pe fyddai genyf fidog neu gyllell flaenllym yn fy llaw, ac un arall yn sefyll yn fy ymyl, a fyddai genyf hawl i wneuthur felly ? Y mae genyf hawl naturiol i gau neu agor fy llygaid fel y dewiswyf ; ond pe bai genyf res o ager-gerbydau o dan fy ngofal, a fyddai genyf yr un hawl ? Y mae genyf hawl naturiol i osod i lawr res o ffigwrau, 3 † 4 † 9 † 10, a chysylltu y meddylrith a fynwyf â phob un o'r arwyddluniau yna ; ac wrth eu cynnodi *(add)*, gwneuthur faint a fynwyf o gamsyniadau ; ond, a fyddai genyf yr un hawl pe bawn yn sefyll y tu ol i'r bwrdd cyfrif, fel ysgrifenydd mewn masnachdy ? Na, fe fyddai gonestrwydd yn fy rhwymo i gysylltu y meddylrith arferol â phob arwyddlun ffigwr, a gofalu na wnelwyf ddim camgymeriad wrth sumio y cyfrif i fyny. Y mae genyf, yr un modd, hawl naturiol i ffurfio unrhyw farn, i osod syniadau wrth eu gilydd yn fy meddwl fel y dewiswyf ; ond os byddai i'r cyfryw syniadau effeithio ar fy nedwyddwch fy hun neu fy nghymydog, nid oes genyf hawl foesol—yr wyf yn gyfrifol am fy marn. Am y rhan fwyaf o blant dynion, nid oes dim llawer o bwys beth fyddo eu barn, o ran dim a effeithia ar ereill ; ond y mae pob un yn gyfrifol iddo ei hun am ei farn.

2. Y mae genyf hawl wladol neu ddinasyddol i farnu drosof fy hun gyda golwg ar faterion crefyddol. Pan y sonir am hawliau dyn, fel aelod o unrhyw gymdeithas, i farnu drosto ei hun, ein meddwl yw, neu a ddylai fod, ei fod yn ei meddu cybelled ag na byddo yn milwrio yn erbyn dybenion neu

egwyddorion y gymdeithas hono. Dyben llywodraeth wladol neu ddinasyddol yw, dyogelu bywyd, rhyddid, a meddiannau y deiliaid. Yn awr, y mae yn canlyn oddiwrth hyn yna, fod genyf hawl ddinasyddol i feddwl fel y dewiswyf; am bawb a phob peth, cyhyd na byddo y syniadau hyny yn tueddu i ddinystrio dybenion llywodraeth. Y mae genyf hawl i feddwl fel y mynwyf am grefydd, am wrthrych addoliad, a'r dull o addoli a phethau cyffelyb—mai Iesu o Nazareth yw y Messia, neu mai twyllwr oedd—fod Joe Smith yn brophwyd, neu wadu hyny—fod Mari y Fantell Wen yn ysbryd-oledig, a Ioanna Southcot yn hudoles, cyd na byddo hyny yn perygl i bywydau, yn cwtogi rhyddid, neu yn ysbeilio fy nghymydog. Meddylia rhai a'r nad ydynt yn dewis mewn un modd cael eu cyfrif ymhlith yr anhael-frydig, er na ddylai yr awdurdodau gwladol ymyraeth â meddyliau neu egwyddorion crefyddol neb fel y cyfryw, eto, os bydd tuedd uniongyrchol y cyfryw egwyddorion i ddrygu ereill, y dylid ymyraeth o du y llywodraeth. I hyn y gellir atteb, nad yw y llywodraeth wladol yn cymeryd i fewn *(takes cognizance of)* feddyliau—nid ydyw, a hyny am y rheswm goreu yn y byd—nas gall—"yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Y mae MEDDWL y tu hwnt i'w *phrovince*—y mae yn rhan gysegredig o ymerodraeth yr Holl-wybodol. "*Thoughts are not subjects.*" "Meddyliau nid ydynt ddeiliaid," sydd un o ddywediadau mwyaf ysplenydd bardd Stratford; ac y mae yn cynnwys gwirionedd sylfaenol ac egwyddorol o berthynas i lywod-ddysg. Na, nid yw meddyliau yn ddeiliaid llywodraeth wladol; nid ydynt yn dyfod o fewn cyleh ei hawdurdod hi, nes y delont yn weithredoedd. Beth a debygech am ddyn yn cael ei ddal, ei garcharu, ei brofi, ei euogfarnu, a'i grogi, am *feddwl* lladd dyn arall? Nis gellid byth ei brofi yn euog. Nid oes neb ond Duw a wyr holl feddylfryd y galon; ac am hyny, nid ydym yn gyfrifol i neb am ein meddyliau ond iddo ef.

3. Ond bod gan unrhyw ddyn hawl foesol i farnu yn *wrong*, yr ydym yn ei wadu yn y modd mwyaf penderfynol; oblegyd os oes gan unrhyw ddyn hawl foesol i *farnu* yn gamsyniol, y mae ganddo yr un hawl i *wneuthur* pa beth bynag a ddichon fod yn ffrwythau neu gynnyrchion y farn hono, neu y byddo y cyfryw syniadau yn naturiol yn arwain iddynt. Y mae ein syn-iadau, fel yr ydym yn ymwybodol eu bod, ac fel yr addefir yn gyffredinol, yn cario dylanwad ar yr ewyllys. Fod yr ewyllys yn hunan-benderfynol mewn unrhyw ystyr a'i gesyd allan fel yn gweithredu heb gymhellion *(motives)*, ac mai nid y cymhelliad cryfaf yw y daioni newyaf mewn golwg ar y pryd, sydd beth nad oes neb a ryfyga ei haeru yn ddifrifol. Yn awr, amlwg yw nad oes genym hawl i ewyllysio yr hyn sydd gamweddus; oblegyd y mae ein hewyllysiadau yn ddeiliaid gyda golwg ar y ddeddf foesol; ac at yr ewyllys yn uniongyrchol y mae gorchymynion a gwaharddiadau y ddeddf yn cael eu cyfeirio, ac nid at y fraich, y llaw, y troed, neu y tafod. Y mae y ddeddf yn gyntaf, ac yn benaf yn anerch y meistr, ac nid y gweision; y brenin, ac nid y deiliaid. Ond caniataer mai at ei gweithredoedd y cyfeirir gorchym-ynion neu waharddiadau y gyfraith yn uniongyrchol; yna os oes cysylltiad rhwng y weithred a'r ewyllysiad—heb yr hyn nis gallai fod yn dda na drwg: ac os oes cysylltiad naturiol ac achosiadol rhwng ein hewyllysiadau a'n barnau, gan y rhai y penderfynir hwynt, ac y dylanwadir arnynt, y mae gorchymyn neu wahardd y naill, mewn effaith yn gwneuthur yr un peth â'r llall. Y mae gwahardd neu orchymyn gweithred, yn wahardd neu orchymyn yr ewyllysiad o honi; ac y mae gwahardd neu orchymyn yr ewyllysiad, yn

wahardd neu orchymyn y syniadau y sydd yn penderfynu ac yn rhoddi cyfiad i'r ewyllysiad hwnw. Yn mhellach, y mae myntumio fod gan ddyn hawl foesol i farnu yn gamsyniadol, yn profi ein bod yn edrych heibio i'r gwahaniaeth dirfawr y sydd rhwng sefyllfa a chyfrifoldeb dynion wedi a chyn cael dadguddiad. Fod cyfrifoldeb yr hwn a gollo ei ffordd a'r map yn ei law, yr un a'r eiddo y sawl nas gwelodd y map erioed, sydd dybiaeth nad oes iddi, fel yr hyderwn, ond ychydig o bleidwyr. Y mae yr ymadrodd, "barnu yn gamsyniol," agos a bod yn wrth-ddywediad. Barnu yw canfod, gweled, dirnad. Gweled yr hyn nid yw, sydd beth annichon. Pan ddefnyddir y geiriau, "barnu yn *wrong*," y meddwl raid fod, naill ai methu canfod yr hyn sydd, neu ddychymygu ein bod yn gweled yr hyn nid yw. Pan dygwydd hyn, rhaid ei fod felly o achos un o'r tripheth canlynol :—

1. Naill ai o achos rhyw ddiffyg yn y llygad, neu y gallu canfyddiadol.
2. Neu oherwydd absenoldeb y cyfrwng priodol, sef goleuni.
3. Neu oblegyd sefyllfa y gwrthrych o ran ei berthynas â'r llygad. Cymhwyser hyn at y mater mewn llaw. Nid yw dyn yn amddifad o'r gallu canfyddiadol—y mae gan y meddwl ei lygad—y mae Duw wedi rhoddi i ni "ddeall (alluoedd meddyliol), fel yr adnabyddom yr hyn sydd gywir. Nid ydym ychwaith yn ymddifad o'r cyfrwng priodol—y mae genym ddadguddiad o feddwl ac ewyllys y Goruchaf—y mae genym y "goleuni sydd yn goleuo pob dyn." Yr oedd Iesu Grist yn mhell oddiwrth gydnabod fod gan yr Iuddewon hawl i farnu yn *wrong;* na, dyma ei eiriau ef, "Oni bai fy nyfod i a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod : ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod." Yr oeddynt yn gyfrifol am eu barn, a'u pechod mawr oedd barnu yn gamsyniol am Iesu, a hwythau yn meddu pob manteision i farnu yn iawn o berthynas i'w nodweddiad, ei anfonedigaeth, a'i honiadau. Y mae pethau crefydd wedi eu gosod mewn pellder addas, gyda golwg ar ein deall. Y maent wedi eu dadguddio trwy ddynion ag oeddent yn teimlo, yn meddwl, ac yn llefaru yn debyg i ni ein hunain. Y mae crefydd o ran yr athrawiaeth o honi, wedi ei bwriadu i'w deall, ac o ran ei dyledswyddau, i'w hymarferyd; a phe byddai dyn fel y dylasai fod, y mae crefydd yn hawdd ei deall, yn hawdd ei chredu, ac yn hawdd ei hymarfer.

J. W.

TERFYNAU BARN BERSONOL *(PRIVATE JUDGMENT)* A RHYDDYMOFYNIAD.

Darfu y traethawd sydd o'r blaen ar "Hawl dyn i farnu drosto ei hun, a chyfrifoldeb dyn am ei farn," droi i maes yn feithach nag yr oeddid yn amcanu ; onite buasem yn cynnyg ychwanegu rhyw ychydig mewn ffordd o attodiad, ac i alw sylw at y terfynau a osodir i lawr, neu a geisir eu gosod i lawr, er cyfyngu swydd rheswm gyda ffurfio *barn bersonol.* Mae traethawd J. W., debygem, yn engraifft deg a ffafriol o'r modd y trinir y cwestiwn gan y rhai a gyfrifir y mwyaf hael frydig ymhlith y Protestaniaid poblogaidd. Modd bynag, terfyna gyda gosod y dyn a ewyllysia ffurfio barn bersonol ger bron cynifer o hen ysgrifeniadau gwerthfawr, yn cynnwys hanes ac addysgiadau dynion ag oeddent yn wir ysprydoledig, a'r haneswyr yma yn cofnodi y ffeithiau a'r addysgiadau &c., yn gywir onest, ond yn eu dull a'u ffordd eu hunain, oreu gallent ; a beth wedi'n ? Oh, dim wedi'n ond barnu, pob dyn drosto ei hun, ynghylch ystyr y geiriau a meddwl yr ysgrifenwyr—derbyn hyny fel gwirionedd anffaeledig ! Prin y bydd rheswm wedi cael ei harwain

hyd at drothwy yr ysprydoliaeth ddwyfol pan y byddo yn cael ei gollwng i ffwrdd. Nid oes ei heisieu ymhellach! Yn wir, y mae eisieu diwygio yn hyn o beth. Mae y llythyren yn *lladd;* yr yspryd sydd yn bywhau. Dywedodd Crist yn bendant mai ei waith a'i swydd ef oedd arwain dynion at y Tad.

Gadawn yn awr ar hyn, gan obeithio dychwelyd at y pwngc maes o law.

I.

AIL ATTEB I "SYLWADAU Y PARCH. W. THOMAS AR YSGRIF DR. LLOYD, YN Y RHIF. DIWEDDAF, Tud. 84."

Mae fy nghyfaill yn iawn pan yn dywedyd nad oeddwn yn bresenol yn y cwrdd; ond nid ydyw yn iawn pan yn dywedyd nad oedd genyf "ond yr adroddiad i fyned wrtho." Yr oedd genyf *ragor*. Yr oedd gennyf dystiolaeth chwech o ddynion llym eu deall a da eu cof, ag oeddynt yn bresenol, pob un yn rhoi ei air dros gywirdeb yr adroddiad. Heblaw hyn, yr oedd Mr. Thomas gwedi cael digon o gyfle i gywiro yr adroddiad, yr hyn yn ddiammau oedd ei ddyledswydd. Pe bai fy sylwadau heb wneyd dim arall ond gorfodi Mr. Thomas i wadu y geiriau a briodolir iddo gan y cofnodydd, yr ydwyf yn credu eu bod gwedi gwneuthur llawer o ddaioni. Da iawn gennyf fi yn bersonol. Da iawn fydd gyda lliaws mawr o ddarllenwyr yr Ymofynydd i glywed a *chredu* na fu i Mr. Thomas i arfer geiriau mor ammharchus [ag a gyfrifwyd iddo] am y Testament Newydd.

Mae Mr. Thomas yn dymuno "cennad i nodi tri pheth a ddylent argyhoeddi y Dr. a phob dyn rhesymol," &c.

1. "Yr oedd yn bresenol dyrfa fawr, ac nid ychydig o weinidogion parchus a dysgedig," &c.

Atteb—Dyma'r achos a berodd i mi gredu i Mr. Thomas arferu y geiriau ammharchus am y Testament Newydd a briodolir iddo yn yr adroddiad. *Mae pob un a welais i* ag oedd yn bresenol yn y cwrdd yn unfrydol, yn cadarn haeru i Mr. T. arferu y geiriau canlynol air yngair, "Nid oes dim rhwymau wedi eu gosod arnom i gadw at y Testament Newydd." Ond gan fod Mr. Thomas yn ymwrthod ac yn di-arddel y geiriau ni ddywedaf air mwyach ar y pen hwn. [Gweler tudal. 84, 85. Rhif. Ebrill.]

2. Dyma reswm arall a ddygir gan Mr. Thomas fel prawf trwy yr hwn mae ef yn meddwl "argyhoeddi y Dr. a phob dyn rhesymol," &c.

"Nid ymddengys i mi fod y Dr. ei hun yn credu fy mod am osod y Testament Newydd o'r neilldu, oblegid cyn diwedd ei ysgrif cyfeiria fi at ran o hono (Mathew xvii. 20.)" Mr. T.! Mr. T.! A ydych chwi ddim yn cofio rheolau rhesymmeg yn well na hyn? Yr ydwyf yn eich cyfeirio at y Testament Newydd oblegid fod *gennyf* fi barch iddo, ac oblegid fod geiriau Crist yn diddymu ar unwaith eich gosodiad chwi—h.y., yr ydych chwi yn haeru fod y Creawdwr gwedi gosod ffydd gadwedigol yn blanedig fel hedyn mwstard *ymhob dyn*, (universal affirmation). Fe ddywed Crist yn Math. xvii. 20, nad oedd gan ei ddisgyblion ddim cymmaint a *gronyn* o *had* mwstard o ffydd, (particular negative). Nis gall y *ddau haeriad* fod yn wir, ac yr ydwyf yn credu na fydd ammheuaeth ymhlith darllenwyr yr Ymofynydd *pwy i goelio*!

Yna yr â Mr. Thomas ymlaen i sylwi yn chwanegol ar yr adnod hon, (Math. xvii. 20.) Gofyna, "a yw m'or adnod a ddyg (Dr. Lloyd) ymlaen

i fy ngwrthbrofi yn profi braidd rhagor nag a garai'r Dr.?" *Nag ydyw* ddim! Mae'r Dr. yn caru pob gair a ddaeth o enau Crist! Pe bai Mr. Thomas ddim ond ystyried am haner munud feddwl yr adnod nis gallasai lai na chanfod ar unwaith, mor gadarn a buddugoliaethus y mae'n taro ar ei osodiad a'i athrawiaeth! Ni haerir yma nad oes gronyn o ffydd "yn yr Hottentot, nag un o'r bobl cyn y diluw, nac yn yr luddewon a erlidient yr Iesu," ond yn nysgyblion, yn *apostolion* yr Iesu ei hunan!" Os ydoedd mor anhawdd i gael y ffydd gadwedigol, fel nad oedd y dysgyblion eu hunain—y rhai oeddynt yn ysgol y *meistr* ei hunan, ddim yn meddianu gronyn o honi y pryd hwn; mor ammhosibl ac anghoeliadwy y mae haeriad Mr. Thomas yn ymddangos, sef fod y Creawdwr gwedi ei phlanu *ymhob dyn!* Nis gall neb dderbyn y ffydd hon ond trwy'r deall, ac y mae llygad y deall mor fychan fel nas gall ond ychydig iawn o honi fyned i mewn ar yr un tro! Nid ydwyf yn credu i'r dysgyblion i gael y ffydd gadwedigol cyn adgyfodiad eu Mheistr. A ellir meddwl i fod y ffydd *gadwedigol* gan Pedr pan yn tyngu ac yn rhegu nad oedd yn adnabod Crist? Mae'n amlwg nad oedd ganddo ddim i'w gadw oddiwrth y celwydd! Ond gwedi i'w Mheistr adgyfodi yna y cawsant y ffydd gadwedigol! Yna y credasant yr hyn oll a a ddywedodd wrthynt. Mae adgyfodiad yr Iesu, yn iaith y Testament Newydd, yn un o *elfenau sylfaenol* y ffydd gadwedigol; ac yma y mae ei neillduolrwydd yn tarddu. Mae rhinwedd a daioni yn y byd erioed, a ble bynag y mae y cyfryw [ffydd?] yn tyfu yno y mae cadwedigaeth a diogelwch. Ond nis gallasai *ffydd* yn adgyfodiad Crist ffynnu yn un man, ond lle yr oedd ei enw a'i hanes gwedi cyrhaedd. Ac oherwydd hyn y dywedir—"Nad oes enw arall gwedi ei roddi i ddynion trwy yr hwn y gallwn fod yn gadwedig."

3. Peth mae Mr. T. am nodi yw hyn: "yr wyf yn dal fod genyf fi fy hun lais yn y mater; ac nad oes neb a all wybod fy meddwl yn gystal a mi fy hun." Nid wyf yn meddwl i fod neb dan haul a fuasai yn dymuno ammau hyn! Ond pan y byddo Mr. T. am gyflwyno ei feddwl i eraill gofaled yn gyntaf *fod ganddo feddwl—meddwl pendant, terfynol, eglur*—y fath ag y gallo osod allan mewn geiriau priodol a dyalladwy, y fath ag y gallo, pe bai achos, gofio am fwy na *mis!!*

D. Lloyd.

Gohebiaethau.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr,—Yn yr Ymofynydd am fis Mawrth mae gan un a gyfenwa ei hunan "nid Calfin," res o olygiadau amryw awduron ar y pwnc o barhad cosp yr annuwiol tudraw i angau a'r bedd. Os caniatewch ryw gongl o'ch misolyn, difynaf ychydig i'r gwrthwyneb, oblegid yr wyf yn barnu fod tuedd yn yr ysgrif i wneyd y darllenydd yn esgeulus o fater ei enaid, ac i anghredu y Beibl mewn geiriau pendant ar y pwnc. "Nid Calfin," gogwyddwch eich clust, a gwrandewch beth a ddywed yr Ysgrythyr ar y pwnc. "A'r rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragywyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol," Math. xxv. 46. Ac heblaw hyn oll "rhyngom ni a chwithau y sicrhawyd gagendor mawr fel na allo y rhai a fynnent dramwy oddiyma attoch chwi, na y rhai oddiyna dramwy attom ni," Luc xvi. 26. "Y rhai a ddyoddefant yn gosbedigaeth ddinystr tragywyddol," 2 Thes. i. 9. "Yr hwn sydd anghyfiawn bydded anghyfiawn etto, a'r hwn sydd frwnt bydded frwnt etto," Dat. xxii. 11. "Meddyliaf fod yr adnodau uchod yn eglur ddangos fod y sefyllfa ddyfodol yn anghyfnewidiol. Bydd cosb yr annuwiol yn dragywyddol, hyny yw, mae

pechod yn ei haeddu yn gyfiawn. Nid oes yno edifeirwch na maddeuant pechod, na chyfnewidiad cyflwr byth."—Y Parch. Thomas Charles, B.A., Bala.

"Mae cosbedigaeth yr annuwiol a dedwyddwch y saint yn annherfynol; os yw dedwyddwch y saint yn annherfynol rhaid yw fod cosbedigaeth yr annuwiol yr un modd; a thruenus yw cyflwr y rhai a feiddiant anturio eu heneidiau ar y dyb ei fod yn arwyddo rhyw yspaid derfynol, yn un o'r ddau le."—Y Parch. J. Hughes.

"Gwrth-ddadleuir yn erbyn parhad diddiwedd poenau uffern trwy ddywedyd yn laf, fod y gair *tragwyddol* yn cael ei arfer yn fynych yn yr Ysgrythyrau Santaidd am barhad hirfaith ond a therfyn iddo, ac y dichon mai felly y mae i ni ddeall yn ei berthynas â phoenau uffern! I hyn yr atebir, ei fod yn arwyddo yn llawer amlach barhad diddiwedd, ac mae yn llawer diogelach i'w ddeall felly yn ei berthynas â chosbedigaeth yr annuwiolion, yn gystal ag â dedwyddwch y cyfiawnion na ffordd arall. Nid oes un perygl o'i ddeall yn ei ystyr briodol a helaethaf. Dyogelach yw gofalu rhag myned i uffern, rhag na cheir dyfod oddiyno byth, na rhodio'r ffordd sydd yn arwain yno yn dawel, mewn gobaith y ceir dyfod oddiyno rywbryd. Y mae athrawiaeth adferiad wedi cysuro llawer mewn cyflwr drwg a pheri iddynt esgeuluso edifarhau."—Y Parch. Wm. Jones, Penybont.

"Y mae pob sicrwydd yn cael ei ddal allan yn y Beibl y bydd y cyfiawn yn ddiogel mewn sancteiddrwydd a dedwyddwch, ac na bydd dim perygl—dim posibl iddynt gwympo i bechod a suddo i wae; ac â'r unrhyw resymau ag y profir fod eu sefyllfa hwy yn anghyfnewidiol y profir fod sefyllfa y drygionus yn anghyfnewidiol hefyd. Y mae y rheswm dros gosbedigaeth dragwyddol y drygionus yr un mor gadarn ag ydyw dros ddedwyddwch tragwyddol y cyfiawn; ac os ydyw un yn agored i ammheuaeth nid oes dim sicrwydd am barhad y llall."—Y Parch. Albert Barnes.

"Nid Calfin," dyna i chwithau syniadau rhai enwogion, a Gair Duw yn flaenaf, yr hwn ddylai fod rheol ffydd ac ymarweddiad pob dyn.

Cwmafon. ARMIN.

DR. COLENSO.

At Olygydd yr Ymofynydd.

SYR,—Ni ryfeddwn i ddim pe bai eraill heblaw Mr. E. J. o Gaerdydd a'm hunan, yn dymuno yn fawr i gael gweled rhywbeth yn feirniadol, neu o leiaf yn hyspysiadol, yn yr YMOFYNYDD, ynghylch mater Dr. Colenso a'r esgobion. Yr oeddwn yn dysgwyl y buasai rhyw un o'ch gohebwyr i'n hanrhegu a rhywbeth yn y ffordd hyny erbyn hyn. Yr wy'n gobeithio na's caf fy siomi yn hir. Os na fydd i un o'ch gohebwyr galluog i gynnyg rhyw eglurhad ar y pwnc, da chwi, Syr, byddwch mor garedig ag i gymmeryd y mater mewn llaw heb fod yn hir. Rhoddai hyny, 'rwy'n credu, lawer o foddlonrwydd i lawer eraill heblaw DYSGYBL.

[Mae'r twrw ynghylch Dr. Colenso a'i feirnadaeth ar bum llyfr Moses heb fyned heibio. Mae y newyddiaduron a'r cyhoeddiadau misol yn d'weud yn groes i'w gilydd. Ymddengys i ni nad yw beirniadaeth yr Esgob Colenso mewn gwirionedd yn effeithio nemawr o ddim oddieithr yn erbyn yr hen dŷb boblogaidd o *gyflawn ysprydoliaeth* ac anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau. Ac y mae hwnw yn gwestiwn ag sy'n gofyn cryn ymchwiliad ac ystyriaeth. Trwy help ein cynhorthwywyr gwnawn ein goreu i gydsynio â chais "Dysgybl."—GOL.]

Y DIWEDDAR D. WILLIAMS, YSW., "ALAW GOCH."

GWELLIANT GWALL.

Mr. GOL.,—Trwy eich cenad dymunaf gywiro gwall a ddigwyddodd yn banes marwolaeth "Alaw Goch" yn y rhifyn diweddaf, tudal. 98. col. 2, 6ed llinell o'r gwaelod.

Yn lle "*wyr* i'r diweddar Iolo Fardd Glas," dylasai fod *nai, fab cefnder* i Iolo Fardd Glas.

Yr eiddoch yn serchog,

Ebrill 10. CARW COCH,

O.S.—Bydded y darllenydd mor garedig a thynu ei ysgrifell trwy y gair "wyr," ac ysgrifenu *nai* ar ymyl y ddalen, ac felly i gywiro'r gwall.

Faursiau Gartrefol a Thramor.

Y Senedd.—*Cyllid y Wlad, a threfn y trethi am y flwyddyn* 1863-64.—Dydd Iau, Ebrill 16eg, traddododd Mr. Gladstone ei araeth gyllidol. Yr oedd pob eisteddle yn Nhŷ y Cyffredin yn llawn yn gynnar yn y boreu, ac nid oedd un gobaith i neb a ddaethant yno ar ol canol dydd am eisteddle, na chael clywed gair o'r adroddiad. Yr oedd yr holl orielau yn llawn. Parhaodd yr adroddiad am dair awr, a gwrandawid arno gyda'r astudrwydd mwyaf. A ganlyn ydyw ei amcangyfrifon am y flwyddyn gyllidol nesaf:—

Amcangyfrif o gynnyrch y Trethi.

Customs	*P*24,180,000
Excise	17,600,000
Stampiau	9,000,000
Trethi	3,160,000
Treth yr Incwm .. .	10,500,000
Llythyrfa	3,800,000
Tiroedd y Goron	300,000
Amrywion	2,500,000
Iawn China	450,000
Cyfanswm	*P*71,490,000

Amcangyfrif o'r Treuliadau.

Llogau y Ddyled Wladol ..	*P*26,330,000
Llog y Drysorfa Gydsawdd ..	1,940,000
Amcangyfrifon y Fyddin ..	15,060,000
Amcangyfrifon y Llynges ..	10,736,000
Casgliad y Cyllid	4,721,000
Amcangyfrifon Amrywiol ..	8,962,000
Cyfanswm	*P*67,749,000

Os tyner cyfanswm y treuliadau allan o'r derbyniadau, fe welir fod y gweddill yn cyrhaedd i 3,741,000p. Gyda'r gweddill yma, cynnygia Mr. Gladstone wneud gostyngiad yn nhreth yr incwm, a chyfnewidiad yn y dull o'i chodi. Y dreth bresennol ydyw 9c. yn y bunt ar gyllid o, ac uwch law 150p., a 7c. ar gyllid yn amrywio o 100p. i 150p. Gwneir gostyngiad o 2g. yn y bunt o'r swm mwyaf a chodir yr un swm yn y bunt ar bob cyllid sydd yn ddarostyngedig i'r dreth. Nid ydyw y cynllun hwn yn ffafriol i gyllidau bychain; ond y mae yn cyfarfod yr amgylchiad hwnw trwy ddarpariaeth arbenig, trwy yr hon y rhoddir hawl i bersonau ag y mae eu hennill o dan 200p. yn y flwyddyn i dynu 60p. allan, ac i dalu yn unig ar y gweddill; er enghraifft, ni ddisgwylir i berson sydd yn derbyn 160p. y flwyddyn dalu ond yn unig ar 100p.; neu os bydd yn derbyn 120p., yna ar ddim ond 60p. Trwy y ddarpariaeth hon, rhoddir mwy na chydwerth am ddiddymiad y raddeg ddwbl, tra y rhoddir gwaredigaeth i bersonau sydd yn derbyn 200p. ac uchod yn y flwyddyn. Gyda rhai cyfnewidiadau eraill, ond o ychydig bwys, gynnygir gostyngiad o 5c. yn y pwys ar y dreth ar dê, yr hyn a'i dwg i swllt y pwys. Ni chyffyrddir â threth y swgr ar hyn o bryd. Deallwn fod arweinyddion y blaid wrthwynebol wedi dyfod i'r penderfyniad nas gallant ennill un fantais trwy wneuthur ymosodiad ar Gyllideb Mr. Gladstone. Nos Wener, y 17eg, dywedodd Syr Stafford Northcote fod "teimlad cyffredinol y Tŷ a'r wlad o blaid y Gyllideb," a rhoddodd ar ddeall ei fod ef ei hun o'r un teimlad.

Y Cyfandir. — *Poland.*— Nid yw cynnygiad y Czar i roddi maddeuant i'r Pwyliaid ar yr ammod iddynt daflu eu harfau i lawr ar y 13eg o Fai, wedi cael nemawr neu ddim effaith. Mae y gwrthryfel yn myned ymlaen o hyd, ac yn hytrach ar gynnydd. Y mae y tri gallu mawr—Lloegr, Ffraingc, ac Awstria—wedi anfon bryslythyrau at Rwssia, pob un ar ei ben ei hun, ond oll o'r un natur. Ond nid ydyw Rwssia etto wedi eu hateb. Credir na bydd yn cynnwys dim heblaw cyfeiriad boneddigaidd at y cynnygiad o faddeuant. Ond ymddengys na ddarfu i un o'r tri Gallu ofyn i Rwssia am faddeuant i'r troseddwyr, ond am iddi newid ei hymddygiadau politicaidd presennol tuag at Poland. Dywed gohebydd y *Daily News* yn Paris fod yr Ymherawdwr Napoleon yn coledd dirgel fwriad i fyned i ryfel â Rwssia ar ran Poland, os na bydd cydweithrediad diplomatyddol y tri yn effeithiol i beri i'r Czar newid ei wladlywiaeth tuag at y wlad hono. Rhydd y *Pays* ar ddeall fod ei Fawrhydi yn debyg o wrandaw ar lais y Galluoedd Gorllewinol; ond ofna y *Star* y bydd i attebiad Rwssia arwain i ryfel Ewropaidd. Y mae Sweden wedi dangos y fath deimlad at y Pwyliaid nes y mae Rwssia yn teimlo yn dramgwyddus tuag ati; ac ymddengys ei bod yn ofni Rwssia

ac yn gwneud parotoadau i ryfel. Mae Rwssia yn cynnyddu ei byddin yn gyflym, ac yn ceisio cynghrair ymosodol a diffynol â Prwssia. Er fod sefyllfa pethau yn ymddangos yn ddu iawn ar hyn o bryd, yr ydym yn hyderu y cedwir heddwch Ewrop.

AMERICA.—Mae rhagolygon llywodraeth yr Undeb yn dysgwyl yn dywyll ddigon ar hyn o bryd. Yn ol yr hysbysiadau diweddaraf, maent wedi methu yn lân yn eu hymosodiadau yn erbyn Port Hudson a Vicksburg ar y Mississippi, ac yn ddiweddaf yn yr ymosodiad mawr ar Charleston. Y mae yn bryd bellach, dybygem, iddynt gydnabod nas gallant ddarostwng gwŷr y Dê. Y mae cryn siarad yn New York am gyhoeddi rhyfel â Lloegr, oherwydd y llongau ag sydd yn anturio i gario masnach ymlaen rhwng y wlad yma a gwŷr y Dê, ond yn benaf o achos gweithrediadau yr Alabama, yr hon sydd wedi gwneud cymmaint o golled i'r llywodraeth Undebol. Ond y mae yn dda genym gael ar ddeall fod Arglwydd Russell a gweinyddiaeth y Frenhines yn parhau i fod yn bur ofalus i geisio gochelyd tramgwydd ac unrhyw achos rhyfel.

CYFARFOD CWARTEROL Y PASG.

Cynnaliwyd Cyfarfod Undodaidd y Pasg ar Gefncoedycymmer, Mercher a Iau yr 8fed a'r 9fed o'r mis diweddaf. Prydnawn dydd Mercher pregethodd y Parch. John Evans oddiwrth Actau xvii. 18—20; a'r Parch. William Hughes oddiwrth Ephesiaid vi. 24. Boreu dydd Iau dechreuodd y Parch. Titus Evans trwy ddarllain a gweddio, a phregethodd y Parch. N. R. Williams yn Saesneg oddiwrth 2 Cor. xii. 2; a'r Parch. Thomas Thomas oddiwrth Luc xv. 11—32, sef dameg y mab afradlon. Etholwyd y Parch. Owen Evans, gweinidog y lle, i'r gadair; ac yna cynnygodd y Pwnc "Ffydd Gadwedigol" i sylw bawb, gan ddymuno ar bwy bynag ewyllysiai ilefaru arno, ond i beidio gwneuthur unrhyw gyfeiriad yn bersonol at y Parch. William Thomas mewn cysylltiad â'r Pwnc, oherwydd nad oedd ef yn bresenol. Llefarodd Mr. Thomas Thomas, Mr. Titus Evans, Mr. Thomas Stephens, Merthyr, a Mr. Owen Evans yn helaeth; yn cyduno ynghylch natur y "Ffydd Gadwedigol," ac mai yn y Testament Newydd y mae yn *unig* i'w chael; ac meddai Mr. Stephens "fod yn ofynol gosod y *Ffydd* mewn gweithrediad er meddiannu y gadwedigaeth." Ar ol ciniaw ymgasglodd tyrfa luosog ynghyd, pryd yr etholwyd Mr. Thomas Parry, un o aelodau Cefncoedycymmer, i'r gadair, a chynnygwyd y Pwnc "A ellir derbyn Cristnogrwydd ac anghredu y Gwyrthiau a gofnodir yn y Testament Newydd?" Ar yr hwn y llefarodd Mr. Thomas Thomas, Mr. Titus Evans, Mr. Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yn Ebenezer, Cefn, Mr. Griffiths, gweinidog yr Annibynwyr yn Tabor, Cefn, Mr. Owen Evans, a Mr. William Hughes, oll yn cyduno nas gellir derbyn Cristnogrwydd ac anghredu y gwyrthiau. Yn yr hwyr cadwyd gwasanaeth drachefn, pryd y cyflawnodd Mr. Thos. Thomas y rhan ddefosiynol o'r addoliad a phregethodd y Parch. Evan Lloyd oddiwrth Ioan i. 47; a Mr. Titus Evans oddiwrth Colossiaid i. 16—18, yr hyn osododd derfyn ar y cyfarfod. Mae y cyfarfod Blynyddol, fel y crybwyllwyd o'r blaen, i gael ei gynnal yn Capel-y-groes, a phennodwyd y Parch. J. E. Jones, Penybont, i bregethu y bregeth dydd Iau; a'r Pwnc yn y gynnadledd fydd "Beth yw Cristion?" Cwynai y gweinidogol gwyddfodol oherwydd absenoldeb y Parchedigion J. James, Dr. Lloyd, ac amryw eraill a rwystrwyd gan amgylchiadau i fod yn bresenol.

T. E.

Marwolaethau.

Ebrill y 3ydd, yn Nghaerfyrddin, yn ei 97 mlwydd, Sarah, gweddw Mr. William Jones, gynt o Heol Awst yn y dref hono. Teimlir hiraeth naturiol ar ol mam dyner ac anwyl, a chofir gyda pharch a diolchgarwch am gynghorion ac hyfforddiadau dwys a serchog a gafwyd ganddi yn nyddiau mebyd a ieuengctyd—am ei hesiampl ac ymarweddiad gwŷlaidd, caredig ac amyneddgar, a'r tawelwch yspryd a feddiannai yr ymadawedig dan bob rhyw groesder a helbul mewn bywyd. Gydag hir oes, cafodd y fraint hefyd o weled "ei phlant yn cyfodi i fynu i'w bendithio." Dechreuodd gyda chrefydd yn fore, a pharhäodd i lynu "wrth y rhan dda" trwy gydol bywyd. Yn ei theulu ac ymhlith ei pherthynasau a'i chyfeillion boreuol yr oedd amryw a ddygasant mawr sêl ymhlaid rhydd ymchwiliad a chrefydd resymol tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Gadawodd ddau fab yn y weinidogaeth Undodaidd; ysgrifenydd y llinellau hyn a W. A. Jones o Taunton. Nid oedd ei chrefydd hi yn un ymddangosiadol. Myfyriai a darllenai lawer ar yr Ysgrythyr, a dangosai ei bod yn cael budd o ddyddanwch oddiyno. Cafodd y fraint o allu darllen hyd ei dyddiau olaf. Ymadawodd mewn tangnefedd, gyda llwyr ymostyngiad i drefn Duw,

a llawn hyder yn addewidion Efengyl Crist. Claddwyd hi yn *Cemetery* tref Caerfyrddin, a gweinyddodd ei chyfaill Dr. Lloyd ar yr achlysur.

Ebrill 16eg, Mr. David Davies, Olwen Llanbedr, Ceredigion, yn 52 oed. Yr oedd ei afiechyd wedi dechreu er ys dros flwyddyn, ond dyoddefodd y cwbl yn amyneddgar neillduol, gan y credai yn ddiysgog fod pob peth yn cydweithio er daioni holl blant dynion, a boddlonai i ewyllys fendigedig ei Dad a'i Dduw, gan ddywedyd gyda'r bardd—

"'Does dim nac yn, na than y nef,
Nad Ef sydd yn ei beri,
Ac Ef a roes, gwnaed dyn ei ran,
Y cyfan er daioni.''

Yr ydoedd Mr. Davies yn ddyn o nodwedd ddiargyhoedd, a pherchid ef gan wreng a boneddig fel dyn cywir, cyfiawn, dihoced, a didderbyn wyneb; dewisid ef bob amser i ymheddychu rhwng pleidiau ymrysongar ac ni chlywsom gymaint ac unwaith erioed iddo ef wyro barn yn yr achosion hyny. Darllenodd weithiau yr awduron enwocaf, ac yr oedd yn ymresymwr cadarn, yn fyr a diaddurn bob amser, ond i bwrpas neillduol ym mhob achos, a gallesid ymddibynu ar ei eirwiredd yn wastadol; mewn gair, yr oedd ef yn foesolwr heb ei ail yn ei ardal, a gwahaniaethed y dynion sydd yn hoff o hollti'r blewyn, os mynant, rhwng moesoldeb a chrefydd, eto nis gallant ei gael ef yn gwneuthur pechod. Rhyw Iolo yr ail ydoedd ef o ran ei olygiadau ar bethau yn gyffredinol. Yr oedd ei wybodaeth yn ëang ym mhob cangen o wybodaethau cyffredinol. Cafodd plwyf Llanbedr golled anadferadwy yn eu hachosion a'u trefniadau cyffredinol ar ei ol, ond gobeithio y cyfoda rhywun yn fuan i lanw ei le. Yr oedd gair da i Mr. Davies gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Eithr efe a dywyllwyd am fynydyn gan gysgod angeu, ond eto caiff y doethion "ddysgleirio fel dysgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder fod fel y sêr yn dragywydd." Felly hunodd ein brawd a'n cyfaill diledryw mewn heddwch â'r holl fyd. Terfynwn yng ngeiriau ardderchog Iolo Morganwg i ddyn da cywir:

"Un a fo'n iawn ei fywyd—a gedwir
Yn gadarn ei wynfyd,
Ni chil, ni fyn ochelyd,
Na dydd barn na diwedd byd.''

Dydd Llun, yr 20fed, ymgynnullodd tyrfa fawr ynghyd i'w angladd, pryd y traddodwyd pregeth o'r radd uchaf i'w clywedigaeth gan y Parch. David Evans, B.A., gweinidog Caeronen, oddiwrth 2 Pedr iii. 10 i'r diwedd; yna cludwyd ei weddillion i fynwent Llanbedr, yno i huno yn dawel hyd foreu y cyfodi o lwch bedd, pryd y bydd i bawb gael cyfodi a byw trwy ewyllys da a gallu Duw. I. Glan Teifi.

Yn ddiweddar, Mr. William Jones, saer maen, George Inn, Aberaman, plwyf Aberdar, Morganwg, yr hwn ydoedd serchog briod Anne, merch Mrs. Mary Jones o'r lle a nodwyd, gynt o Gastell Elwyn, plwyf Pencareg, swydd Gaerfyrddin. Brodor oedd Mr. William Jones o Ysbytty Ystwyth, swydd Ceredigion,—cyfaill anwyl a mynwesol i'r ysgrifenydd, a dyn ydoedd, yn yr ystyr fanylaf o'r gair, heb ei fath yn aml o ran diragrithrwydd a chywirdeb cymdeithasol a gadawodd ar ei ol mewn gwirionedd esiampl deilwng i'w hefelychu gan bobl Aberaman a phob Aber arall. Yn ei onestrwydd a'i gywirdeb yn ei holl ymddygiadau, nid cario pen mawr yn gogwyddo tua'r llawr ar y Sabbath; a rhagfarn gul-wyntog loned ei esgyrn at bob daliadau ond yr eiddo ei hun, fel y mae rhith-grefyddwyr Phariseaidd a phoblogaidd ein hoes yn ei wneuthur, yr oedd ein cyfaill, ond ymddwyn yn syml, plaen, a dihoced, a siarad fel dyn rhesymol, call yn ei holl gyfeillachau, ynghyd a thalu ei holl ofynion bob amser yn uniongyrchol, nid fel y mae miloedd o grefyddwyr ein hoes, fel y mae gwaethaf y modd, yn ei wneuthur. Wel, prysured yr amser ynte pryd y byddo egwyddorion teilwng ein hybarch gyfaill trengedig yn cael eu llwyr gadw yn ddieithriad. Gadawodd weddw a phlentyn bychan i alaru eu colled ar ei ol, a brawd anwyl hefyd, ond na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith; a bydded iddynt gofio fod "Barnwr y weddw a Thad yr amddifaid" eto yn fyw, a bod Crist yn dywedyd, "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog a mi a esmwythaf arnoch," &c. Cymhwyswn yr englynion canlynol at ein cyfaill ymadawedig:—

"Yn ein hoes un hynawsach—ni chafwyd
Na chyfaill cywirach,
Dyn o enaid unionach,
Ni bu erioed dan wybr iach.

'E swynai 'i hynaws wyneb—ni'n hollol,
Ennillai anwyldeb,
Rhoi gwarth anair gwrthwyneb
Iddo'n, wir ni feiddiai neb.

Delw 'i enaid a lanwai—ei wyneb
A'i wên a arwyddai,
Y dymer lân feddianai,
Bur a mwyn fel bore Mai.

Ni 'dwaenai ddichell; dyn heddychol—fu
Drwy fywyd gwastadol,
A gair da gŵr doniol,
Yn hir iawn bery o'i ol.''

Cellan. I. Glan Teifi.

Barddoniaeth.

Y LILI.

Gwiw hynod ferch deg anian!—Hardd ydyw
Urdd odiaeth hyfryd-lan
A siriol wyryf seirian,
Loyw gu yw y lili gân.

Ah! lili deg garanawg wèn,
Mor dlŷs-wech ydwyt ti!
Mor brydferth y gogwyddi'th ben
Yn nhymor yr haf cu!
Mae gwylder yn dy dremiad glain,
Hawddgarwch sy'n dy wên,
A'th ruddiau glwys—Oh! maent yn gain—
Ti loni'r llesg a'r hên.

Brenines yr holl flodau blydd
Yr wyt:—gogoniant haf,
Ol llaw'r Anfeidrol, bob rhyw ddydd,
Yn amlwg arnat caf.
Ond credwyf Fi fod *un* 'n y byd
Sy'n lanach nâ thydi,
Er cymaint ydyw tlysni'th brŷd,
Sef, fy Anwylyd I.

HEDYDD MORGANWG.

NERTH YN OL Y DYDD.

"*God tempers the wind to the shorn lamb*"

Es heibio i dlodaidd gaban un
Oedd ar elusen brin yn byw;
Newynllyd, carpiog oedd ei llun
A'i lodes fach a'i gruddiau'n wyw.
Amgylchent fwrdd crynedig, hen,
Ond ar y gwyneb llwyd 'r oedd gwên.

Y nesaf ddrws gorphwyllog ferch
A drigai gyda'i bachgen glân,
Heb ganddi arno i fyw ond serch,
Na synwyr, dillad, bwyd na than;
Mwmialai ryw hên benill llon,
Gan wasgu 'i bachgen at ei bron.

O dan y rhai'n mewn seler laith
Yng nghrwm uwch dyrnaid oer o dân,
A'r awel deneu ar ei thaith
Yn gwanu trwy'r agenau mân,
Oedd gwreigan hen, o rychiog wedd,
A'i hanwyl briod yn y bedd.

Ni wnelai un achwyniad croes
Yn erbyn daear lawr na nef;
Ond rhifai drugareddau 'i hoes,
Gan barchus ddiolch iddo Ef.
Hi soniai am y marw pell,
Ac am ei gwrdd mewn gwlad sy well.

Mi welais fam â golwg brudd
Yn trwsio gwely'r briall pôr,
A deigryn gloew dros ei grudd
Yn disgyn ar eu blodau têr:
Ei geneth fach sy yng nghladdfa'r plwy'
Y llynedd wnai eu trwsio hwy.

Mwy anwyl ganddi liw a llun
Pob blodyn bach o gylch yr ardd;
Hi dybia fod ei hanwyl un
Drwyddynt yn gwenu arni'n hardd.
A chred yng ngwydd y blodau iach
Y ceidw Duw ei geneth fach.

Molianwn Naf a chalon lawn
Na ddaw un groes heb nerth i'w dwyn,
Ac nad yw'r cwmwl duaf gawn
Heb wrth ei odre oleu mwyn:
Cŷd ag y pery einioes frau
Bydd GOBAITH fyw i'n llawenhau.

ORION.

CYFFES PROFIAD Y PRYDYDD.

Pan oeddwn yn ifanc yn nghanol fy ngrym,
I'm blino un tymhor, 'doedd nemor o ddim:
Ond rhaid yw cyfaddef fod rhai pethau bach
Yn rhwystro'm rhau ddynol 'fyw'n hollol o iach.

'Does diben wynebu i wadu 'sydd wir:
Bu cariad yn blino fy nheimlad yn hir;
Ond byth ni feddyliais pan safwn yn syn,
Fod diwedd fy einioes yn agos bryd hyn.

Daeth amser 'nol hyny i ffwdanu â'r byd,
Cadd oriau fy ie'ngctyd eu newid i gyd:
Cymmerais gydmares a phlantais yn *shŵr*;
Daeth gofid du wed'yn i'm dilyn fel dŵr.

Ond gwaeth na phob gofid yw'r gofid sy'n awr;
Mae poen yn mhob cymmal yn ddyfal bob awr:
Wrth deimlo arwyddion a'u troion didrai,
'Rwyn gweled yn olau nos anghau'n nesâu.

Mae'r dannedd yn rhwyllog a'r blewyn yn wŷn:
Mae'r henaint i'w ganfod yn dyfod yn dŷn;
Mae'r cof yn fwy brattiog, 'rwy'n gychiog fy ngwedd,
'Rwy'n symud bob mynud o'r bywyd i'r bedd.

Er gwaethaf pob gofid, a'r adfyd a gaf,
I wely distawrwydd yn ebrwydd yr af,
Gobeithio 'caf fyned dan faner yr wyf:
Dan adain Undodiaeth yn berffaith y bwyf.

DANIEL GLOFF.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.